Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon** Llywodraeth Cymru 2023-24

Medi 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
X: **@SeneddArchwilio**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon**
# Llywodraeth Cymru 2023-24

Medi 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **6**

**1. Cyflwyniad** ........ **9**

**2. Llunio'r Cyfrifon** ........ **10**

Amserlen ........ 10

Ffin y gyllideb ........ 13

System gyllid newydd ........ 14

Newidiadau i'r Adroddiad Perfformiad ........ 15

Ein barn ni ........ 16

**3. Colledion a thaliadau arbennig** ........ **19**

Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ........ 19

Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ........ 20

Ein barn ni ........ 21

**4. Llywodraeth Cymru 2025** ........ **22**

Newid ffocws LlC2025 ........ 22

Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol ........ 24

Systemau TG corfforaethol ........ 26

Ein barn ni ........ 28

**5. Adrodd am Berfformiad** ........ **31**

Ein barn ni ........ 32

**6. Gweithlu Llywodraeth Cymru** ........ **33**

Rheoli perfformiad staff ........ 33

Absenoldeb oherwydd salwch ........ 36

System Adnoddau Dynol newydd – Pobl ....... 37

Y Gymraeg ....... 38

Datganiad Polisi Tâl 2024 ....... 40

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ....... 42

Ein barn ni ....... 43

**7. Gwariant Llywodraeth Cymru ....... 45**

Alldro ....... 45

Ein barn ni ....... 45

**8. Llywodraethiant a Sicrwydd ....... 46**

Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ....... 46

Proffil risg ....... 47

Archwiliad Mewnol o Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Llywodraeth Cymru ....... 49

Y Gronfa Caderndid Economaidd – Monitro ar ôl cwblhau ....... 50

Adolygiad wedi'i deilwra o gyrff hyd braich ....... 52

Ein barn ni ....... 55

**9. Mater i'w olrhain ....... 59**

TVR Automative ....... 59

Ein barn ni ....... 60

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ....... 62**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn un o feysydd craidd ein gwaith. Er bod y Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, â'r dystiolaeth a glywyd ar y Cyfrifon, parhau mae'r meysydd sy'n peri pryder ac yn gofyn am sicrwydd pellach, a chamau gweithredu, ar ran Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd digonol ynghylch camau cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025, a bydd y Pwyllgor yn parhau i ymdrechu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i weithredu'r rhaglen newid hon, ac i bennu a yw'n cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailffocysu'r rhaglen. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ynghylch yr hyn a olygir yn ymarferol gan hynny. Mae'n destun pryder inni nad oes digon o wybodaeth yn y Cyfrifon am faes gwaith mor arwyddocaol.

Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch sgiliau, capasiti ac adnoddau o fewn gweithlu Llywodraeth Cymru, a'r effaith ganlyniadol ar ddarparu gwasanaethau a datblygu polisïau. Mae llesiant staff yn rhywbeth a fydd o bwys i'r Pwyllgor ar bob adeg, a bwriad argymhellion yr adroddiad hwn ynghylch monitro absenoldebau sy'n gysylltiedig â salwch meddwl yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'n well ar gyfer ei gweithlu.

Mae'n dal i fod meysydd lle mae angen eglurder pellach y byddai'r Pwyllgor yn ei werthfawrogi, gan gynnwys risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg yn flynyddol, ar danwariant gan Fanc Datblygu Cymru ac ar lefel y twyll a'r gwallau sy'n ymwneud â grantiau busnes COVID-19.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch goruchwyliaeth anfoddhaol Llywodraeth Cymru o gyrff hyd braich. Yn ein barn ni, mae hynny wedi cyfrannu at faterion sy'n codi mewn cyrff. Mae symudiad Llywodraeth Cymru tuag at ddull goruchwylio sy'n seiliedig ar risg wedi'i grybwyll mewn adroddiadau eraill, ac mae'n parhau i fod yn faes sy'n destun pryder sylweddol, o ystyried y materion a gododd yn ystod trefniadau blaenorol mwy cadarn.

Byddwn yn ystyried y dull terfynol sy'n seiliedig ar risg ar ôl iddo gael ei roi ar waith, a'n nod yw cynnal gwaith craffu pellach ar Lywodraeth Cymru, os nad yw'r trefniadau'n cynnig digon o sicrwydd i'r Pwyllgor.

**Mark Isherwood AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, er gwaethaf yr heriau o ran paratoi'r cyfrifon gan ddefnyddio prosesau a systemau presennol, pam nad yw'n bwriadu buddsoddi yn y system gyllid newydd hyd nes iddi ddod yn hanfodol i fusnes. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law am ei hadolygiad o'r swyddogaeth gyllid ar draws y sefydliad, a'r mesurau eraill y mae'n eu cymryd i wella cyflymder ac effeithlonrwydd ei phroses paratoi cyfrifon, gan sicrhau iechyd a llesiant staff ar yr un pryd. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Rydym yn ailbwysleisio ein galwad am dryloywder ynghylch yr amserlen ar gyfer y cyfrifon blynyddol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer Cyfrifon 2024-25, a phob blwyddyn o hynny ymlaen, cyn gynted â phosibl yn dilyn ei chytundeb ag Archwilio Cymru. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch sut y mae wedi ymgysylltu ag unrhyw endidau neu unigolion yn y sector preifat ynghylch buddsoddi yn GCRE Ltd, manylion faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar GCRE Ltd hyd yn hyn, ac a fydd cam cyntaf adeiladu'r cynllun meistr wedi'i gwblhau erbyn canol 2025. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ganlynol ynghylch y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio:

- Pa bryd y cafwyd y dyfeisiau System Ynni Deallus a nodwyd yn ystod 2023-24 fel rhai nad oeddent yn gweithio mwyach, neu pa bryd y cawsant eu gosod.
- Cost gyffredinol y contractau sy'n gysylltiedig â chaffael y Pecyn System Ynni Deallus ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, i osod hyd a lled y golled mewn cyd-destun. ........ Tudalen 21

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r newidiadau a wnaeth i Lywodraeth Cymru 2025 pan, o ystyried pwysau cyllidebol, y newidiodd ffocws y rhaglen. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am oblygiadau'r newidiadau i amcanion cyffredinol y rhaglen, a'r effaith gysylltiedig ar y sefydliad ei hun. At hynny, dylai ddarparu gwybodaeth am y chwe maes allweddol y mae am

fynd i'r afael â nhw o dan raglen 2025 Llywodraeth Cymru, a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r tair ffrwd waith, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau ar gyfer dyfodol y rhaglen y tu hwnt i 2025. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell, wrth symud ymlaen, fod Llywodraeth Cymru yn nodi sylwadau clir a chytbwys yn ei chyfrifon ynghylch cyflawniad yn erbyn ei rhaglen newid. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhaglen, gan esbonio pam mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud, a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni'r rhaglen a'r amcanion ar ei chyfer. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y rolau a gyflawnwyd gan staff a adawodd y sefydliad o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a sut y cefnogodd y cynllun hwnnw unrhyw gamau ar gyfer ailgynllunio'r gweithlu y tu hwnt i leihau'r gyllideb staffio yn unig. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa ffactorau a lywiodd ei phenderfyniadau ynghylch ei gofynion sgiliau presennol, a rhai'r dyfodol, fel rhan o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol diweddar. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa asesiad ehangach y mae wedi'i gynnal ynghylch y rolau o fewn ei sefydliad nad oes eu hangen. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa bryd y mae'n disgwyl cwblhau'r map ffordd systemau corfforaethol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd wedi gwneud hynny. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am ei hadolygiad o'i threfniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys y cwmpas a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith. ........ Tudalen 44

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu data ar gyfer nifer yr achosion o absenoldeb staff tymor byr oherwydd problemau iechyd meddwl, a darparu data tueddiadau ar gyfer absenoldebau tymor byr a thymor hir oherwydd problemau iechyd meddwl, i ddangos sut y gallai hyn fod wedi newid dros amser. ........ Tudalen 44

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am yr achos o dorri data yn system Pobl, a pha fath o ddata y gallai rheolwyr llinell ei weld, na ddylent fod wedi gallu ei weld. ........ Tudalen 44

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r modd y cyflwynwyd cyflog Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn ei Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024 ac yn sicrhau, yn y dyfodol, nad yw'r wybodaeth yn gamarweiniol, a'i bod yn gyson â'r wybodaeth am daliadau yn y cyfrifon blynyddol. .......... Tudalen 44

**Argymhelliad 16.** Rydym yn croesawu'r datgeliadau ychwanegol am risgiau yng Nghyfrifon 2023-24 Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r wybodaeth mewn ffordd glir ac atyniadol. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys, yn ei chyfrifon blynyddol, sylwadau am y risgiau newydd a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn ,ac yn sicrhau ei bod yn dilyn arfer gorau wrth adrodd ar risgiau. .......... Tudalen 56

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam y mae ei phenderfyniad i beidio ag ailgychwyn ei rhaglen o adolygiadau teilwredig yn ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i atal ei rhaglen gyfatebol. .......... Tudalen 58

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Pwyllgor hwn pan fydd unrhyw werthiant o'r cyfranddaliadau wedi'i gwblhau, gan gynnwys manylion lefel yr enillion, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniant prydlesu wrth i unrhyw denant gael ei ganfod. Gofynnwn i unrhyw ddiweddariadau gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r lefel ddisgwyliedig o incwm o unrhyw brydles wedi'i sicrhau. .......... Tudalen 61

# 1. Cyflwyniad

**1.** Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyfrifon Cyfunol ("y Cyfrifon"), sy'n amlinellu ei chyllid a'i rhwymedigaethau statudol.

**2.** Gosodwyd Cyfrifon 2023-24 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ("yr Archwilydd") gerbron y Senedd ar 29 Tachwedd 2024. Darparodd yr Archwilydd farn ddiamod 'gwir a theg' a 'rheoleidd-dra' arnynt.

**3.** Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ("y Pwyllgor") ei waith craffu ar Gyfrifon 2023-24, gan glywed tystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru ar 19 Chwefror[1], gyda thystiolaeth bellach wedi'i darparu yn ysgrifenedig.

**4.** Ar yr adeg pan oeddem yn clywed tystiolaeth, Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru oedd Mr Tim Moss CBE. Ers hynny, mae ei gyflogaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi dod i ben. Mae ein hadroddiad yn cyfeirio ato fel "y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd" drwyddo draw.

[1] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025

# 2. Llunio'r Cyfrifon

## Amserlen

**6.** Wrth graffu ar Gyfrifon 2021-22 Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023[2] a'i Chyfrifon ar gyfer 2022-23 ym mis Mawrth 2024[3], nododd swyddogion gymhlethdod cynyddol y broses o baratoi cyfrifon gyda mwy o sefydliadau wedi eu cynnwys yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru. Y llynedd, nododd swyddogion gymhlethdodau ychwanegol, hefyd, megis cyflwyno safonau cyfrifyddu newydd.[4] Roedd y cymhlethdodau hyn, hefyd, wedi effeithio ar amserlenni archwilio.[5]

**7.** Ym mis Mawrth 2023, dywedodd y cyn-gyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor bod swyddogion wedi cytuno ar gynllun tair blynedd 'uchelgeisiol' i ddwyn y broses o gwblhau'r cyfrifon ymlaen i fis Medi.[6] Flwyddyn yn ddiweddarach, dywedodd swyddogion bod trafodaethau'n parhau gydag Archwilio Cymru ynglŷn â'r dull gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf (2023-24 i 2025-26).[7] Nid oedd wedi dechrau'r cynllun ac roedd y gorwel cynllunio tair blynedd wedi cael ei ymestyn i bedair blynedd.[8]

**8.** Yn ei adroddiad ar graffu ar Gyfrifon 2022-23, argymhellodd y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad, cyn y gwaith craffu ar Gyfrifon 2023-24, am ei chynlluniau i ddwyn y broses o gymeradwyo'r cyfrifon ymlaen i fis Medi.[9]

---

[2] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2023, paragraff 10
[3] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 160
[4] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 160
[5] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 37
[6] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2023, paragraff 64
[7] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 37
[8] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 159
[9] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2022-23: Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2024, paragraff 25

**9.** Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth Cymru gyd-destun ei thrafodaethau blynyddol gydag Archwilio Cymru ynghylch yr amserlen, yn ogystal â'r materion i'w hystyried ar gyfer paratoi ac archwilio Cyfrifon 2024-25.[10]

**10.** Tra'n nodi ei bod wedi cynnal deialog yn ei gylch, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oes ganddi gynllun ffurfiol sy'n pennu dyddiadau gosod ar gyfer y tair blynedd nesaf. Byddai Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ei Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r rheini sy'n gyfrifol am Gyfrifon y GIG) yn trafod hyn gydag Archwilio Cymru yn ystod gwanwyn 2025.[11]

**11.** Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd gan swyddogion gynllun ffurfiol, eto, i ddwyn y broses o gymeradwyo'r cyfrifon ymlaen.[12] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"The plan that you referred to is something that we develop alongside Audit Wales …. that cycle of getting it in by the end of the November, of itself, I think, will be a good outcome at this stage. We're happy to keep trying to see whether there are some opportunities to bring things forward a little bit. I think in the current financial year, we're looking to see whether the NHS accounts can be brought forward a little earlier, but I still don't think that's materially going to change the end of November timetable that we are working to."*[13]

**12.** Amlygodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod swyddogion wedi cynhyrchu'r cyfrifon, a oedd wedi'u harchwilio a'u cyflwyno gerbron y Senedd, bedwar mis cyn y dyddiad cau statudol. Fodd bynnag, cododd bryderon ynghylch iechyd a llesiant staff pe baent yn cael eu gwthio i raddau hyd yn oed yn bellach[14], gan ychwanegu fel a ganlyn:

---

[10] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 10 Chwefror 2025
[11] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 10 Chwefror 2025
[12] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 43
[13] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 46
[14] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 41

> *"So, what I'm trying to do is work with my team, work with Audit Wales, because we have regular meetings on this, to see whether we could make this a faster process."* [15]

**13.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd swyddogion yn parhau i weithio gydag Archwilio Cymru ar yr amserlen,[16] ond dywedodd, hefyd:

> *"… it's a pretty hard ask to deliver to the current timetable that we're delivering. A thros y tair blynedd diwethaf, fel y gwyddoch, rydym wedi llwyddo i adfer y cydymffurfiaeth â'r amserlen i wneud yn siŵr bod hynny'n cael ei wneud erbyn diwedd mis Tachwedd ar gyfer llofnodi gydag Archwilio Cymru hefyd."*[17]

**14.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrth y Pwyllgor ei fod, hefyd, yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i weld beth maen nhw'n ei wneud hefyd, a swyddogaeth gyllid y Llywodraeth ar lefel Llywodraeth y DU[18]. Dywedodd:

> *"I'm also reviewing the finance function, because I have got a very small, dedicated and skilled team, but it is a very small team, to do this work. So, those issues are preventing me pushing even more—and I am worried and concerned about the staff who deliver this who work long weekends and into the evenings—but it is a great result and to push it even more at this stage, I can't give any guarantees. I am working with Audit Wales; we've had a meeting in the last couple of weeks, we've got a further meeting in the next month and then I'll go through it with our audit risk assurance committee as well."*[19]

[15] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 41
[16] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 45
[17] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraffau 44 a 45
[18] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 47
[19] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 47

**15.** Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid ei fod o'r farn y bydd cynllun a therfyn amser ar gyfer y flwyddyn nesaf ac na allai, ar hyn o bryd, sicrhau cynllun tair blynedd.[20]

## Ffin y gyllideb

**16.** O ran cynnwys mwy o sefydliadau yn ei chyfrifon cyfunol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys GCRE Limited yn ei rhestr o is-gwmnïau a'i chyrff hyd braich, sy'n destun gorchymyn dynodi ond sy'n amherthnasol i'w cydgrynhoi yn 2023-24[21]. Mae GCRE Limited [y Ganolfan Rhagoriaeth Rheilffyrdd Byd-eang] Cyfyngedig yn is-gwmni i Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd i ddatblygu "safle pwrpasol ar gyfer ymchwil, profi ac ardystio cerbydau o'r radd flaenaf, seilwaith a thechnolegau rheilffyrdd newydd".[22]

**17.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2023-24, dywedodd Llywodraeth Cymru: "Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno, nid yw GCRE Limited wedi'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol eto ac mae buddsoddiad ariannol preifat wrthi'n cael ei geisio ar gyfer dyfodol hirdymor yr endid hwn a disgwylir i hynny effeithio ar sut y caiff ei ddosbarthu yn y dyfodol".[23]

**18.** Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni o ran statws presennol GCRE Limited, ac a oedd wedi denu buddsoddiad preifat.

**19.** Yn ei hymateb, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2024 fod yr ONS wedi dosbarthu GCRE Limited i is-sector y llywodraeth ganolog o 24 Awst 2021 ymlaen. Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"Erys statws y prosiect yn ddigyfnewid. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo'r cwmni yn ei ymdrechion i sicrhau buddsoddiad preifat ond mae hefyd yn cynllunio ar gyfer atebion cyllido amgen os methir â denu buddsoddiad preifat yn llawn neu'n rhannol.*

[20] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 49
[21] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tud. 211
[22] GCRE Ltd [Cyrchwyd 22 Mai 2025]
[23] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tud. 211

> *Os bydd unrhyw newid i strwythur neu drefniadau llywodraethu'r cwmni fel rhan o sicrhau buddsoddiad preifat, efallai y bydd angen i'r SYG adolygu'r dosbarthiad yn y dyfodol."* [24]

**20.** Nodwn fod gwefan GCRE yn datgan mai "2025 fydd y foment pan ddaw ein holl waith caled yn GCRE dros y saith mlynedd diwethaf i benderfyniad".[25] Mae gwefan Trafnidiaeth Cymru (TfW) hefyd yn darparu gwybodaeth am statws GCRE ac yn nodi bod "disgwyl i gam cyntaf y gwaith o adeiladu'r uwchgynllun gael ei gwblhau erbyn canol 2025".[26]

## System gyllid newydd

**21.** Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2022-23, dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor fod ganddyn nhw dyddiad penodedig o 2026 neu 2027[27], pan fyddai Llywodraeth Cymru yn cael ei gorfodi i uwchraddio gan gyflenwyr y system gyllid bresennol, gan ei fod, yn amlwg, wedi symud ymlaen yn ystod y 14 mlynedd diwethaf.

**22.** Yn ei adroddiad ar graffu ar Gyfrifon 2022-23, argymhellodd y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am baratoi a chymeradwyo'r achos busnes ar gyfer system gyllid newydd, ynghyd â gwybodaeth am y cynlluniau a'r costau cysylltiedig pe na chymeradwyir yr achos busnes. [28]

**23.** Yn ei hymateb, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod ei Phwyllgor Gweithredol, ym mis Awst 2024, wedi cymeradwyo'r achos busnes amlinellol strategol.[29]

**24.** Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2023-24, holodd y Pwyllgor am y camau nesaf yn y broses gymeradwyo ar gyfer y system gyllid newydd, gan nodi y gallai cyflenwyr y system bresennol orfodi uwchraddio, neu dynnu cefnogaeth iddi yn ôl.

[24] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[25] Gwefan GCRE, cyrchwyd ar 29 Mai 2025
[26] Gwefan Trafnidiaeth Cymru, cyrchwyd ar 29 Mai 2025
[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 49
[28] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adroddiad ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, argymhelliad 2, Rhagfyr 2024
[29] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 10 Chwefror 2025

**25.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd wrth y Pwyllgor am y cynlluniau i ddatblygu hynny yn achos busnes amlinellol a'r achos busnes terfynol hyd at 2025.[30]

**26.** Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyllid fel a ganlyn:

> "*... we have to put up a business case. We've done the SOC [strategic outline business case]; we've got to do the OBC [outline business case] and the FBC [final business case]. That will be a considerable amount of money on a capital basis. However, as you said, Chair, that will deliver revenue benefits as well, because it should streamline the system and it will affect the accounts. It will make it easier to do the accounts because we've got a significant manual system to do these accounts*".

**27.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn edrych i ddysgu gwersi gan gydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban, sydd newydd fynd trwy'r cam hwn.[31]

**28.** Eglurodd, hefyd, y sefyllfa gyda'r system gyllid bresennol.[32] Dywedodd:

> "*The current systems we've got have updates going out certainly to 2028, but there's also information that we've picked up more recently that says, actually, you can extend the life of those further.*"[33]

## Newidiadau i'r Adroddiad Perfformiad

**29.** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith ar fformat, strwythur a llif yr Adroddiad Perfformiad[34], wedi'i gynnwys yng Nghyfrifon

[30] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 52
[31] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 61
[32] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 49
[33] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 62
[34] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24

Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, fel y nodwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei lythyr at y Pwyllgor[35].

**30.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am amcanion y newidiadau hyn, ac a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod swyddogion wedi bod yn gweithio ar y ffordd o gyflwyno'r cyfrifon blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan fyfyrio ar eu profiadau nhw eu hunain, yn ogystal â dwyn myfyrdodau'r Pwyllgor i ystyriaeth.[36] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"We know that some of the underlying messages have been about clarity, not just from a technical perspective, but, actually, more in the public domain, not just to help Members through that process, of course, but to make sure that there is an appropriate understanding of the way in which Welsh Government, not least as an organisation, runs its operations."*[37]

**31.** Ychwanegodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd:

> *"… this is a constant process that we iterate, both in terms of the look-back that goes into the annual accounts around our performance during the year, but also then how we're using performance frameworks going forward."*[38]

## Ein barn ni

**32.** Ar ôl cael gwybod fod yna gynllun tair blynedd 'uchelgeisiol' i gymeradwyo'r cyfrifon erbyn mis Medi, awgrymodd tystiolaeth Llywodraeth Cymru na fydd hyn yn bosibl, bellach, o fewn yr amserlen wreiddiol, gyda nifer y staff yn ei thîm paratoi cyfrifon sy'n defnyddio systemau a phrosesau presennol.

**33.** Nodwn y mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ynghylch y prosesau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad y Cyfarwyddwr Cyllid o'r

[35] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 6 Rhagfyr 2024
[36] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 34
[37] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 34
[38] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 37

swyddogaeth gyllid ar draws Llywodraeth Cymru, trafodaethau rhynglywodraethol gyda'r potensial i rannu arferion gorau, a thrafodaethau gydag Archwilio Cymru ynghylch cynyddu cyflymder ac effeithlonrwydd y broses o baratoi cyfrifon. Er ein bod yn edrych ymlaen at glywed am ganlyniadau gwaith o'r fath, rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch defnydd parhaus Llywodraeth Cymru o daenlenni â llaw a chymhleth ar gyfer paratoi ei chyfrifon, yn enwedig gyda'r posibilrwydd o ehangu ei ffin gyfrifyddu.

**34.** Dydyn ni ddim yn deall, ar ôl clywed y llynedd y byddai cyflenwr ei system gyllid bresennol yn gorfodi uwchraddio yn 2026 neu 2027, pam fod Llywodraeth Cymru bellach wedi dweud wrthym y byddai'n cael diweddariadau hyd at 2028 a fyddai'n ymestyn ei hoes.

**35.** Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf hon yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu disodli ei system gyllid hyd nes ei bod yn dod yn hanfodol i fusnes. Mae hyn yn destun pryder inni, o ystyried y cymhlethdodau a'r heriau cysylltiedig, yn ogystal â'r pwysau ar y tîm bach sy'n paratoi'r cyfrifon. Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth uwch i gynigion o'r fath, a chyflymu ei chynlluniau. Bydd y cynigion yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf, ac rydym yn cydnabod y pwysau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu. Fodd bynnag, cydnabu swyddogion y manteision refeniw y bydd system gyllid newydd yn eu cynhyrchu. Mae'n ymddangos na fydd manteision yn cronni i Lywodraeth Cymru, bellach, tan y Seithfed Senedd tra'n ysgwyddo'r risgiau cysylltiedig.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, er gwaethaf yr heriau o ran paratoi'r cyfrifon gan ddefnyddio prosesau a systemau presennol, pam nad yw'n bwriadu buddsoddi yn y system gyllid newydd hyd nes iddi ddod yn hanfodol i fusnes.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law am ei hadolygiad o'r swyddogaeth gyllid ar draws y sefydliad, a'r mesurau eraill y mae'n eu cymryd i wella cyflymder ac effeithlonrwydd ei phroses paratoi cyfrifon, gan sicrhau iechyd a llesiant staff ar yr un pryd.

**36.** Nodwn, ar adeg ein hadroddiad, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer paratoi ac archwilio Cyfrifon 2024-25. Mae'r Pwyllgor wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen bob blwyddyn, cyn gynted ag y bydd wedi'i chytuno gydag Archwilio Cymru.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn ailbwysleisio ein galwad am dryloywder ynghylch yr amserlen ar gyfer y cyfrifon blynyddol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer Cyfrifon 2024-25, a phob blwyddyn o hynny ymlaen, cyn gynted â phosibl yn dilyn ei chytundeb ag Archwilio Cymru.

**37.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo GCRE Limited yn ei ymdrechion i sicrhau buddsoddiad preifat ond mae hefyd yn cynllunio ar gyfer atebion cyllido amgen os methir â denu buddsoddiad preifat yn llawn neu'n rhannol.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch sut y mae wedi ymgysylltu ag unrhyw endidau neu unigolion yn y sector preifat ynghylch buddsoddi yn GCRE Ltd, manylion faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar GCRE Ltd hyd yn hyn, ac a fydd cam cyntaf adeiladu'r cynllun meistr wedi'i gwblhau erbyn canol 2025.

**38.** Er ein bod yn cydnabod bod lle i wella'n barhaus, rydym yn croesawu'r newidiadau i'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru sy'n gliriach, gan wella hygyrchedd a dealltwriaeth o'r wybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad yn y Cyfrifon.

# 3. Colledion a thaliadau arbennig

**39.** Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd am 159 o golledion, gyda chyfanswm gwerth o £9.4 miliwn a 16 o daliadau arbennig gyda chyfanswm gwerth o £13.3 miliwn yn 2023-24.[39] Roedd gwerth chwe cholled ac un taliad arbennig yn unigol yn fwy na £300,000 ac, fel sy'n ofynnol gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, adroddodd Llywodraeth Cymru ar y rhain ar wahân.[40] Archwiliodd y Pwyllgor y rhesymau dros y colledion hyn a'r taliad arbennig, o ystyried yr effaith ar y pwrs cyhoeddus.

## Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

**40.** Mae Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru yn cynnig dull tŷ cyfan o ddatgarboneiddio cartrefi presennol.[41] Yn ystod 2023-24, nododd swyddogion bod nifer o ddyfeisiau, a gaffaelwyd fel rhan o'r Rhaglen Ôl-osod, wedi mynd yn ddiwerth oherwydd newidiadau technolegol, yr oedd angen eu huwchraddio i sicrhau parhad data systemau ynni deallus a ddarperir i'r rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl uwchraddio'r holl unedau ac felly, cydnabu Llywodraeth Cymru eu cost wreiddiol (£2.3 miliwn) fel colled.[42]

**41.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r ffordd y sefydlwyd y mecanwaith rhanddeiliaid gwreiddiol yn golygu ymgysylltiad uniongyrchol, cyfyngedig â'i swyddogion. Mae llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor yn datgan fel a ganlyn:

> *"Y sawl a oedd yn gosod y systemau ynni deallus a oedd yn arwain y broses o reoli a chyflawni'r rhaglen, gyda chyllid grant yn cael ei drosglwyddo drwy Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Ymddengys fod hyn wedi arwain at ddiffyg eglurder o ran adrodd ac uwchgyfeirio. Roedd hyn yn golygu nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem a achoswyd gan newid llwyfan, a olygai fod yr unedau yn mynd yn anweithredol, tan ar ôl iddi ddod i'r golwg."*[43]

[39] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 125
[40] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 125
[41] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 110
[42] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[43] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

**42.** Dywed yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi cwblhau "proses fanwl a thrylwyr o ddysgu gwersi".[44] Erbyn hyn, mae mewn contract uniongyrchol gyda'r darparwr i "sicrhau tryloywder llawn a bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith tra bydd y rhaglen waith yn cael ei chwblhau". [45] Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd fod y "dyfeisiau ynni deallus cychwynnol ymhlith y gyfres gyntaf o unedau monitro o'r fath".[46] O'r herwydd, mae'n dweud bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn agored i'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd.

## Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

**43.** Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd am daliad arbennig o £13.1 miliwn (heb gynnwys TAW) i gyrraedd cytundebau setliad cytundebol ar gyfer prosiectau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Cododd problemau gyda hyn oherwydd pwysau chwyddiant, a effeithiodd ar argaeledd a fforddiadwyedd deunyddiau adeiladu.[47]

**44.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y contractwr wedi cyflwyno "nifer o hawliadau contractiol"[48] am arian ychwanegol ar gyfer y tri cynllun ffordd. Fe wnaeth, hefyd, gyflwyno hawliad o dan Hysbysiad Polisi Caffael Cymru (WPPN) 09/21, a dalwyd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'w safbwynt o ran polisi.[49] Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r rhain fel taliadau dewisol.[50] Barnodd fod gan y contractwr hawl i'r symiau sy'n weddill o dan delerau'r contractau priodol.[51] Mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu fel a ganlyn:

> *"Er nad yw'n sicr y byddai'r contractwr wedi dechrau gweithrediadau anghydfod ffurfiol am symiau a oedd yn ddyledus ym marn y contractwr, tybiwyd ei bod yn eithaf tebygol y byddai'n gwneud hynny. Yn ychwanegol at y risg gyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru yn colli mewn anghydfod o'r fath, byddai unrhyw anghydfod fwy na thebyg wedi arwain at oedi i'r rhaglen. Byddai hyn yn ei dro wedi*

[44] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[45] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[46] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[47] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[48] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[49] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[50] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[51] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

> *effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ERDF mewn perthynas â'r cynlluniau."*[52]

## Ein barn ni

**45.** Er bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r problemau gyda'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y materion hyn.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ganlynol ynghylch y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio:

- Pa bryd y cafwyd y dyfeisiau System Ynni Deallus a nodwyd yn ystod 2023-24 fel rhai nad oeddent yn gweithio mwyach, neu pa bryd y cawsant eu gosod.
- Cost gyffredinol y contractau sy'n gysylltiedig â chaffael y Pecyn System Ynni Deallus ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, i osod hyd a lled y golled mewn cyd-destun.

**46.** Sut mae Llywodraeth Cymru wedi lledaenu unrhyw wersi a ddysgwyd, gan sicrhau bod ei holl gytundebau â rhanddeiliaid yn nodi'n glir y gofynion o ran adrodd ac uwchgyfeirio.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y taliad arbennig i gyrraedd cytundebau setliad cytundebol ar gyfer prosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth amdano. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r taliad arbennig o £13.1m (heb gynnwys TAW) i gyrraedd setliad cytundebol ar gyfer prosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, o'i gymharu â gwerth cyffredinol y cynlluniau ac a oedd yn cynrychioli setliad wedi'i negodi islaw cyfanswm gwerth yr hawliadau a gyflwynwyd gan y contractwyr.

[52] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

# 4. Llywodraeth Cymru 2025

**49.** Yn ystod 2022-23, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol 'Llywodraeth Cymru 2025' ('LlC2025'), sef "cynllun tair blynedd ar gyfer datblygu'r sefydliad er mwyn iddo fod yn addas at y diben yn y byd sydd ohoni ar ôl y pandemig ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE", gan gynorthwyo Gweinidogion yn fwy effeithiol a chyflawni ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghymru o fewn cyd-destun ariannol a byd-eang cynyddol heriol. [53]

**50.** O ystyried yr heriau cyllidebol a wynebodd, newidiodd Llywodraeth Cymru ffocws ei rhaglen WG2025 i dair ffrwd waith.[54] Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23, darparodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y ffrydiau gwaith newydd: Newid maint; newid siâp; a newid lleoedd.

## Newid ffocws LlC2025

**51.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am y newidiadau yr oedd wedi'u gwneud i'r rhaglen a cheisiodd eglurhad ynghylch y gweithgareddau a gynlluniwyd yn wreiddiol ond na fyddent yn cael eu cynnal bellach. Dywedodd:

> *"I think the thing that absolutely got in the way of year 2 of Welsh Government 2025, though, in a salutary way, was just the changed outlook on budgets, which affected the Welsh Government in its own operations as well as, of course, affecting Wales as a whole in terms of the budget process that was occurring. Therefore, I think that some of our intentions couldn't be worked through. We had to pivot the arrangements to look at a different approach to what the size of the organisation would look like."*[55]

**52.** Ychwanegodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd:

> *"The refocusing of the programme into the three work streams of resize, respace and reshape, as I said, was there to meet the needs of*

[53] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23
[54] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraffau 127 – 128
[55] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 90

*the environment that we're operating within. Within that, we ran some really clear change programmes around the size of the organisation, in terms of how we look at recruitment, looking at temporary workforce, temporary promotions, but also ran a voluntary exit scheme to ensure that we were at the right size as an organisation. We did a lot around our estate, looking to build much more of a public sector estate, so, taking on a number of tenants from across the public sector, but also looking at reducing our costs in terms of the way that we operate, and did that very successfully. And then, also, looking at the shape of the organisation and how we can most effectively meet the needs of ministerial priorities and priorities for the organisation, and make sure that we've got resources in the right place. And in doing some of those, it did mean that, yes, some of the things that we started in phase 1, some of the things we couldn't carry on in quite the same way—some of the things that we would want to do maybe around skills and resources and increasing certain areas—because of the requirement to make sure that they were the right size for the budget environment, some of those were put on hold."*[56]

**53.** Fe wnaethom nodi, o Gyfrifon 2023-24, y mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y ffrwd waith Newid Maint i helpu i gydbwyso ei chyllideb gweithlu a diogelu swyddi presennol.[57]

**54.** Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ei chynlluniau recriwtio arfaethedig, ac wedi lleihau ei phrosesau recriwtio allanol drwy weithredu proses 'allanol drwy eithriad'.[58] Mae Cyfrifon 2023-24 yn nodi "mae hyn wedi arwain at leihad uniongyrchol o 50% o ran recriwtio allanol ar gyfer pedwerydd chwarter 2023-24 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol". [59]Mae Llywodraeth Cymru, hefyd, wedi oedi recriwtio prentisiaid newydd a rhaglenni llwybr carlam ar gyfer 2024-25.[60]

**55.** Wrth roi rhagor o fanylion am LlC2025 wedi'i ailffocysu, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd eu nod  yn edrych i ail-gyfnodi'r rhaglen, eto,

[56] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 91
[57] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 73
[58] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 73
[59] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 73
[60] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24

mewn maes newydd, a bod yna chwe maes allweddol y maent am fynd i'r afael â nhw, yn y dyfodol.[61]

**56.** Mewn ymateb i a yw cynllun LlC2025 ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"Yes, we're still intending to deliver by 2025, and the six areas that Tim [the then Chief Operating Officer] was outlining all are in line with those objectives as well.*
>
> *So, in respect of the hardest decisions to take on this, I think needing to revert to just the budgetary impact on the organisation, as, of course, was the experience of other public service organisations, was very significant. We have a responsibility to manage within our budgets, but you don't lightly make decisions about reducing your workforce and staff in the manner that we did, and I think we did that in a very open and transparent way. We did it in social partnership with our unions. …*
>
> *I still think, on an ongoing basis, that being very clear about the size, the skills that are required and the functions of Welsh Government is going to be really important. As Tim [the then Chief Operating Officer] highlighted, we know that one of the biggest sets of changes that we're going to need to respond to is going to be the way in which the Welsh Government operates around the Senedd reform process and that change that is happening more politically. So, we recognise that that is a significant moment and probably generational in terms of some of the changes that we may need to bring to bear within the Welsh Government itself."*[62]

## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

**57.** Y llynedd, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor bod Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi cael ei lansio ar gyfer tua 150 o staff.[63]

[61] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 92
[62] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraffau 107 a 108
[63] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 146

**58.** Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar graffu ar Gyfrifon 2022-23, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cael 393 o geisiadau dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol erbyn y dyddiad cau. Sgoriwyd ceisiadau ar sail tri maen prawf: Sgiliau allweddol, parhad busnes a recriwtio staff newydd.

**59.** Argymhellodd panel Cynllun Ymadael Gwirfoddol corfforaethol y dylai Llywodraeth Cymru ryddhau'r holl staff a sgoriodd yn isel ar draws y tri maen prawf, ac na fyddai angen recriwtio staff newydd yn eu lle. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol, a gadawodd 91 o staff y sefydliad ar 31 Awst 2024: Roedd 26 mewn rolau a ariannwyd gan y rhaglen a 65 mewn swyddi a ariannwyd drwy gostau rhedeg dirprwyedig.

**60.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y gall Llywodraeth Cymru gyflawni cynllun gweithlu fforddiadwy, o ystyried mai 91 o staff a adawodd y sefydliad o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, yn hytrach na 150 fel y nodwyd yn flaenorol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol eu bod wrthi'n cynnal gwaith craffu ar gyfrifon blynyddol, a bod yn rhaid iddyn nhw ddangos y gallu i weithio o fewn y gyllideb a osodwyd ar eu cyfer, a'u bod wedi gallu gwneud hynny.[64]

**61.** Esboniodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd fel a ganlyn:

> *"… the voluntary exit scheme was put in place as a result of us understanding that we had a circa £28 million gap in the central services administration budget. At the time, we anticipated that we would need circa 150 colleagues to exit in order to help fill the gap. …*
>
> *So, we ended up exiting 91 people in August, with an in-year saving of around about £3.5 million, with a full year saving this year of around about £6 million."*[65]

**62.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd:

> *"… we were able to let 91 colleagues exit with a high degree of assurance that it was unlikely to impact our business operations, and*

[64] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 97
[65] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraffau 99 a 100

> *highly unlikely to impact the skills that we require within the organisation".*[66]

**63.** Ynghyd â'i Chynllun Ymadael Gwirfoddol, a chyflwyno ei pholisi 'allanol drwy eithriad', roedd Llywodraeth Cymru wedi symleiddio ei defnydd o leoliadau tymor byr a chontractau asiantaeth o dan ei ffrwd waith Newid Maint. At hynny, roedd wedi lleihau nifer ei Aseiniadau Dyrchafiad Dros Dro o 494 i 106. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd y canlynol:

> *"… each of those factors, to make sure that we were living within our means and that we had an affordable workforce plan. As a result of that, we've been able to land an affordable workforce plan for the financial year. And, of course, there are other measures, including reshape and some of the savings under the respace work stream that will have contributed to that significantly as well."*[67]

## Systemau TG corfforaethol

**64.** Yng Nghyfrifon 2023-24, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Cydnabyddir ar draws Llywodraeth Cymru ein bod yn dibynnu'n helaeth ar systemau TG sy'n heneiddio nad ydynt yn rhoi dyfnder ac ehangder yr wybodaeth reoli y mae arnom ei hangen ac a fyddai'n ein galluogi i reoli gweithrediadau yn fwy effeithlon ac effeithiol."*[68]

**65.** Pan gafodd ei holi am yr achos, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol mai'r rheswm dros hynny oedd pwysau cyllidebol dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd:

> *"I think the reality is that the systems that enable us to run the organisation run effectively, but the things that we want to do for the*

[66] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 101
[67] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 102
[68] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 123

> *future to become more effective, more efficient, drive up productivity, require further investment in developing the systems."*[69]

**66.** Fe wnaeth y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd ddweud wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn datblygu map ffordd cynhwysfawr ar gyfer systemau corfforaethol, er mwyn iddi allu cynllunio'r buddsoddiad sydd ei angen i ddatblygu'r systemau hynny yn y dyfodol.[70]

**67.** Yng nghyd-destun diweddaru'r Pwyllgor am system gyllid newydd Llywodraeth Cymru, y cyfeirir ati yn gynharach yn ein hadroddiad, ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pwynt hwn, gan ddatgan fel a ganlyn:

> *"… we didn't understand the landscape, and so what we've actually done in the last few months is understand the total landscape of the IT infrastructure of Welsh Government, to make sure that there are no hidden things coming through.…"*[71]

**68.** Pan ofynnwyd iddo a oedd ganddo ddigon o adnoddau i fynd i'r afael â'r risgiau tymor byr, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd:

> *"I think, in this area, there are never enough resources to do all of the things that you want to do, but we prioritise very effectively the funds and the resources that we have. Rydym wedi gallu, gyda setliad y gyllideb ddrafft, gwneud rhywfaint o gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf i roi mwy o adnoddau i'r maes hollbwysig hwn i sicrhau y gallwn wneud mwy gyda'r adnoddau sydd gennym a datblygu'r adnoddau hynny ymhellach."*[72]

**69.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn mynd i'r afael â'r risgiau pennaf.[73]

---

[69] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 80
[70] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 52
[71] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraffau 58 a 59
[72] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 84
[73] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 86

## Ein barn ni

**70.** Rydym yn rhannu barn yr Ysgrifennydd Parhaol fod hon yn foment arwyddocaol i Lywodraeth Cymru fel sefydliad, yn enwedig o ystyried Diwygio'r Senedd. Mae hyd a lled yr her, a'r newidiadau a allai fod yn ofynnol, yn arwyddocaol. Mae'n bwysig bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni dros bobl Cymru.

**71.** Rydym yn croesawu cadarnhad yr Ysgrifennydd Parhaol bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni rhaglen LlC2025 erbyn mis Rhagfyr 2025, yn unol â'r cynllun. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro'r newidiadau a wnaeth pan symudodd o'i chynlluniau gwreiddiol i'r rhaglen wedi'i hailffocysu. Nid yw, ychwaith, wedi nodi beth y mae'r newidiadau hynny'n ei olygu ar gyfer amcanion cyffredinol LlC2025 a'r goblygiadau i'r sefydliad. Er ein bod yn cydnabod y bydd cynlluniau o'r fath yn esblygu, nid ydym yn glir a fydd rhaglen LlC2025, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025, yn cyflawni amcan cyffredinol y rhaglen. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru i egluro hyn.

**72.** Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at chwe maes allweddol yr oedd am fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol o dan LlC2025 heb nodi beth ydyn nhw, nac egluro sut y maen nhw'n cysylltu â'r tair ffrwd waith. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru i egluro hyn. Rydym, hefyd, yn gofyn, wrth symud ymlaen, i Lywodraeth Cymru gynnwys, yn ei chyfrifon, sylwadau clir a chytbwys ynghylch cyflawni ei rhaglen newid yn erbyn ei chynllun. Dylai hynny nodi unrhyw newidiadau i'r rhaglen, gan esbonio pam mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud, a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni ac amcanion.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r newidiadau a wnaeth i Lywodraeth Cymru 2025 pan, o ystyried pwysau cyllidebol, y newidiodd ffocws y rhaglen. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am oblygiadau'r newidiadau i amcanion cyffredinol y rhaglen, a'r effaith gysylltiedig ar y sefydliad ei hun. At hynny, dylai ddarparu gwybodaeth am y chwe maes allweddol y mae am fynd i'r afael â nhw o dan raglen 2025 Llywodraeth Cymru, a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r tair ffrwd waith, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau ar gyfer dyfodol y rhaglen y tu hwnt i 2025.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell, wrth symud ymlaen, fod Llywodraeth Cymru yn nodi sylwadau clir a chytbwys yn ei chyfrifon ynghylch cyflawniad yn erbyn ei rhaglen newid. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhaglen, gan esbonio pam mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud, a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni'r rhaglen a'r amcanion ar ei chyfer.

**73.** Rydym yn cydnabod yr heriau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran cydbwyso’r gyllideb ar gyfer ei gweithlu, a'r rôl y gall ymarferion ymadael gwirfoddol ei chwarae i gefnogi arbedion cost tymor hwy, ac ailgynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor wybod llawer, ac mae pwysau o ran capasiti o fewn Llywodraeth Cymru yn destun pryder iddo. Syndod inni, felly, yw nad oedd effaith debygol yr ymadawiadau gwirfoddol diweddar yn fwy na'r hyn a ddisgrifiwyd. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a oes lle i ail-lunio rolau eraill yn fwy eang, y gallai Llywodraeth Cymru weithredu hebddynt.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y rolau a gyflawnwyd gan staff a adawodd y sefydliad o dan y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a sut y cefnogodd y cynllun hwnnw unrhyw gamau ar gyfer ailgynllunio'r gweithlu y tu hwnt i leihau'r gyllideb staffio yn unig.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa ffactorau a lywiodd ei phenderfyniadau ynghylch ei gofynion sgiliau presennol, a rhai’r dyfodol, fel rhan o’r Cynllun Ymadael Gwirfoddol diweddar.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa asesiad ehangach y mae wedi'i gynnal ynghylch y rolau o fewn ei sefydliad nad oes eu hangen.

**74.** Nododd y Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cydbwyso’r gyllideb ar gyfer ei gweithlu drwy gyfrwng ei Chynllun Ymadael Gwirfoddol yn unig. Clywsom fod mesurau o dan ffrydiau gwaith eraill LlC2025, Newid Siâp a Newid Lleoedd, wedi cyfrannu at yr arbediad. Fel y gwnaeth mesurau eraill o dan ffrwd waith Newid Maint, megis gweithredu polisi recriwtio 'allanol trwy eithriad' ac oedi recriwtio prentisiaid newydd a llwybr carlam. Er ein bod yn cydnabod y penderfyniadau anodd a wynebodd Llywodraeth Cymru mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn pryderu ynghylch effaith y mesurau hyn ar allu'r sefydliad i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr, a sicrhau cyflenwad o dalent.

**75.** Gyda'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar sut y cydbwysodd ei chynllun gweithlu ar gyfer 2024-25, nid ydym yn glir ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru yn erbyn yr amcanion ehangach o ran Newid Maint a Newid Siâp, a'i chynnydd yn eu herbyn. Dylai ein hargymhelliad, sef y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei chyfrifon, sylwadau clir a chytbwys am ei chyflawniad yn erbyn ei rhaglen newid, fynd i'r afael â hyn. Bydd y Pwyllgor yn archwilio hyn gyda'r Ysgrifennydd Parhaol pan fyddwn yn cynnal gwaith craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

**76.** Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru systemau corfforaethol sy'n galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan fabwysiadu datblygiadau technolegol i wella cynhyrchiant. Testun pryder i'r Pwyllgor, felly, yw clywed ei fod yn dibynnu ar systemau TG sy'n heneiddio, nad ydynt yn rhoi'r wybodaeth reoli sydd ei hangen arno. Mae'n galonogol bod swyddogion yn datblygu map ffordd i lywio ei anghenion buddsoddi yn y dyfodol. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd swyddogion wedi pennu dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa bryd y mae'n disgwyl cwblhau'r map ffordd systemau corfforaethol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd wedi gwneud hynny.

# 5. Adrodd am Berfformiad

**77.** Mae'r Pwyllgor hwn a'i Bwyllgor rhagflaenol wedi archwilio, gyda swyddogion, adrodd am berfformiad Llywodraeth Cymru yn ei chyfrifon blynyddol, gan wneud argymhellion ar hyd y ffordd.[74] Wrth i'r Pwyllgor gynnal gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23, dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor, ar ôl cynnal adolygiad o'r trefniadau, fod Pwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru wedi cytuno y dylai'r sefydliad fabwysiadu dull mwy tebyg i gerdyn sgôr cytbwys o adrodd ar berfformiad.[75]

**78.** Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yw "un o'r prif ddulliau a ddefnyddir i fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru".[76] Ei nod yw:

> "… sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd trefniadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad."[77]

**79.** Ceisiodd y Pwyllgor wybodaeth am y meysydd allweddol i'w gwella yn ystod y flwyddyn, a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei fframwaith perfformiad dros y flwyddyn ganlynol. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cerdyn sgôr cytbwys ar gyfer ei fframwaith perfformiad, gan ychwanegu'r canlynol o ran y swyddogion:

> "… *now looking at 16 areas across the organisation. We've got 26 measures, we have nine targets and benchmarks, and 22 trend indicators, really looking at our in-year performance, and that's helping us to look at what are the key areas that we need to improve during the year, and then we'll need to see the results of that and how*

[74] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adroddiad ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, Hydref 2023, Pennod 6
[75] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adroddiad ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, Rhagfyr 2024, paragraff 173
[76] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 60
[77] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 60

> *that links into the performance framework that we'll put into the accounts next year".*[78]

**80.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd mai dim ond un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn monitro ei pherfformiad yw'r cerdyn sgôr cytbwys. Ychwanegodd ei fod yno i ategu pethau megis yr adroddiadau cyllid misol rheolaidd, yr arolwg pobl blynyddol, a phwyntiau data eraill sydd gyda nhw. Dywedodd ymhellach fod hynny wir yn eu helpu i lywio perfformiad yn y sefydliad, fel rhywbeth sydd o dan ystyriaeth gan yr mae'r is-bwyllgor y mae'n ei gadeirio, ac sydd bellach yn ymchwilio'n fanwl i feysydd lle maen nhw am wella perfformiad.[79]

**81.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"Rhagwelir y bydd y cyfrifon blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r adroddiadau ar berfformiad ar hyd y flwyddyn, a fydd yn cynnwys adroddiadau rheolaidd y cerdyn sgorio ynghyd â metrigau blynyddol sy'n ymdrin ag agweddau pwysig eraill ar berfformiad (fel Gwerthoedd Llywodraeth Cymru). Bydd hefyd yn cynnwys y myfyrdodau a'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i hynny gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol."*[80]

## Ein barn ni

**82.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu dull cerdyn sgorio cytbwys ar gyfer ei hadroddiadau perfformiad, a'r hyn y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn disgwyl ei gynnwys yn y cyfrifon yn y dyfodol.

[78] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 201
[79] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 201
[80] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 201

# 6. Gweithlu Llywodraeth Cymru

## Rheoli perfformiad staff

**83.** Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch rheoli perfformiad staff yn dilyn adroddiad mewnol a gafodd ei ddatgelu, o fewn 'adran ddiwylliannol' Llywodraeth Cymru, a oedd yn arolygu barn staff. Cyhoeddwyd rhai manylion y ddogfen a gafodd ei datgelu, yn y cyfryngau[81].

**84.** Fe wnaethom dynnu sylw at dy ffaith fod ambell ddarn o'r adroddiad a gafodd ei ddatgelu, ac fel y'u cyhoeddwyd yn y wasg, yn awgrymu ddiffyg rheoli perfformiad gwirioneddol gyda rheolwyr nad ydynt, o bosibl, am gael sgyrsiau anodd ac yn gallu osgoi'r sgyrsiau hynny, ac o ganlyniad gall staff nad ydynt yn perfformio, osgoi goblygiadau hynny.Fe wnaethom, hefyd, dynnu sylw at awgrymiadau fod staff yn teimlo, yn ôl pob golwg, nad oedd ymdeimlad o gynllunio strategol hirdymor, a bod barn gyffredin nad yw disgwyliadau gweinidogion yn cael eu rheoli.[82]

**85.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd:

> *"The culture division report is from, I believe, 2022 or 2023, so it was before my time. But, again, where we have pockets of practice across the organisation where there are a multitude of issues happening—whether it's individual line managers being unable to have conversations or whether, for example, and our anti-racism plan makes it clear, we still have variances in staff experience across the organisation—we may use measures like a neutral assessment to understand in more detail what's happening. So, yes, there was a report commissioned, I believe, by my predecessor in conjunction with the business area to look at the very specifics of what was happening. Since then, there has been a number of measures put in place and we've seen improvements in the people survey score, for example, in that particular area this year. I myself speak with our social partners,*

[81] The Guardian, '[Wales-cuts-culture-language-history-nation-funding](), cyrchwyd yn fwyaf diweddar ar 9 Mai 2025
[82] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 138-144

> *trade unions, about those pockets as and when they arise to make sure there are timely interventions."*[83]

**86.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ystyried rhannu'r adroddiad gyda'r Pwyllgor.[84]

**87.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, rhannodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol lythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ynghylch Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, o ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiad a gafodd ei ddatgelu. Mae'n sôn am greu "lle diogel i staff rannu eu profiadau, mae eu cyfraniadau yn gwbl gyfrinachol" ac yn cadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol am faterion staffio.[85]

**88.** Yn fwy cyffredinol, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cyfleoedd bob amser i wella trefniadau rheoli perfformiad.[86] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Again, that performance management context is set by working across the UK civil service, and I think we do use those arrangements. We have moderation arrangements in place, so it's not just simply about a single conversation between a line manager and their own staff, so we try and make sure that we sponsor that as well. And we do call out difficulties around performance in the organisation. We have feedback from our staff about how that feels on the other side, through the staff survey. And speaking openly about what that represents, it tells us that we do have performance management systems in place. The general experience of staff will be that that is appropriate and supportive, but there are areas within the organisation where performance management is not working as we*

[83] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 134
[84] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 136
[85] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 21 Mawrth 2025
[86] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 127

> *would wish and, therefore, we are focused on those processes as well."*[87]

**89.** Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd y canlynol:

> *"One of the areas that we're focusing on as part of Welsh Government 2025, going forward, however, is to review the performance framework and to make sure that colleagues can have better quality conversations. I'm not in a position today to say, because I don't believe this is the fact, that there is a single area that is an outlier. As with all organisations, performance management often depends on the capability and capacity of line managers, and that's an area that we'll focus on"*[88]

**90.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, hefyd: "*[I] absolutely accept the concerns about workload and the pressures that our staff are under in the organisation. The fact that we worked with our unions to produce a health, safety and well-being strategy was absolutely focused on actions that would take place in that*".[89]

**91.** Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"You'll have seen in our corporate risk register that we've actually retained our concerns for our well-being of staff as a very high risk for the organisation as well, because we do need to call it out and do something about that as well. And it's why, in terms of right-sizing the organisation, what we're trying to make sure is that we don't just enhance and exacerbate those pressures as well. So, I do accept those concerns, but I also think that we are making progress on what we can do about that, and the manner and the ways in which we work are things that I think are within our gift to change."*[90]

---

[87] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 127
[88] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraffau 131 a 132
[89] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 162
[90] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 163

## Absenoldeb oherwydd salwch

**92.** Yn ei adroddiad ar graffu ar Gyfrifon 2022-23, argymhellodd y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys, yn ei chyfrifon, ddadansoddiad o ddata absenoldeb oherwydd salwch er mwyn gwahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl a mathau eraill o salwch.[91] Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn, gan gadarnhau y byddai'n adrodd ar absenoldebau oherwydd iechyd meddwl yn ei chyfrifon ar gyfer 2024-25.[92]

**93.** Nododd y Pwyllgor fod lefelau absenoldeb oherwydd salwch Llywodraeth Cymru yn is yn 2023-24 nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd "cynnydd bach" mewn absenoldeb yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl.[93] Gofynnodd am ragor o wybodaeth am gyffredinolrwydd absenoldeb staff oherwydd problemau iechyd meddwl, a sut roedd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hynny.

**94.** Yn ei llythyr dilynol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod ei "data cyfredol" yn dangos bod tua 48 y cant o'r holl absenoldeb salwch hirdymor yn gysylltiedig ag iechyd meddwl.[94] Mae'r llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae'r Bwrdd Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn dwyn y sefydliad i gyfrif am y cymorth a'r ymyriadau a ddarperir ar gyfer staff er mwyn eu helpu i oresgyn dirywiad mewn iechyd meddwl. Cynhaliodd y Bwrdd archwiliad dwfn o iechyd meddwl yn ddiweddar a barodd am ddau gyfarfod bwrdd. Mae camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliad dwfn yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r awr lesiant, archwilio'r angen am hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl i bob rheolwr llinell a dadansoddiad mwy rheolaidd o dueddiadau a phatrymau er mwyn ei gwneud yn bosibl inni ddatblygu ymyriadau a chymorth pellach wedi'u targedu yn y lleoedd cywir ar yr adeg gywir."*[95]

[91] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adroddiad ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, argymhelliad 10
[92] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23(argymhelliad 10), 10 Chwefror 2025
[93] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 147
[94] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[95] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

## System Adnoddau Dynol newydd – Pobl

**95.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23, gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion am statws y system Adnoddau Dynol newydd, sef Pobl, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023, a sut roeddent yn sicrhau bod ganddi wybodaeth gywir ac amserol i gefnogi rheoli'r gweithlu.[96]

**96.** Esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd fod y system Adnoddau Dynol newydd wedi'i rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2023, gyda'r systemau blaenorol wedi mynd yn hen ac allan o gymorth.[97] Nododd y risg busnes clir a'r angen i weithredu'r systemau hynny ond sicrhaodd i ni fod y system bellach yn gweithredu.[98]

**97.** Nododd y Pwyllgor fod Cyfrifon 2023-24 wedi adrodd am dorri data yn system Pobl, a cheisiodd wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am yr hyn a ddigwyddodd.[99] Esboniodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd fel a ganlyn:

> *"So, we were migrating to Pobl. We were seeking to adapt the 'select nationality' criteria on the system to enable colleagues to self-identify their nationality. In doing so, we identified that there was an element of adaptation that perhaps our supplier hadn't foreseen, and, as a result, it created a situation where, unknowingly, some line managers were able to view data that they shouldn't have been able to view. I'm assured that at no point was data, such as protected characteristics, viewable. However, there would have been elements that should not have been viewable that were viewable."*[100]

**98.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd fod y Prif Swyddog Diogelwch wedi cynnal adolygiad ar unwaith, yn dilyn y toriad data, a bod hyn wedi nodi

[96] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 139
[97] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 139
[98] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 139
[99] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 114
[100] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 231

argymhellion ar sut y gallai Llywodraeth Cymru wella cadernid y system.[101] Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd y canlynol:

> *"I think there were 18 recommendations in total—14 have concluded, one is in progress, and three are currently being reviewed at the moment, whilst we look at the level of service supply around that particular system. We've recently made a decision to recruit some additional developers to help us with the system build to make sure that we can continue to get Pobl into the space where we'd like it to be, and moving that in-house gives us a greater degree of control over how we can manage some of these situations going forward rather than working in partnership with key partners."*[102]

**99.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd:

> *"We've now also done some structural change, where we had a separate team dealing with the changes linked to some of the HR systems. We've now incorporated that into our core IT team, which gives us greater resilience, but also greater control around the standardisation of processes from the change-control perspective."*[103]

## Y Gymraeg

**100.** Ym mis Ebrill 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei pholisi ar ddefnydd mewnol o'r iaith, 'mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd'.[104] Gweledigaeth Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn ei hadroddiad blynyddol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2022 i 2023 (Mehefin 2023), yw i'r sefydliad ddod yn:

---

[101] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 232
[102] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 233
[103] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 237
[104] Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2022 i 2023, Adran 3.1

> *"… sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, sy'n golygu y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n naturiol ac yn gyfnewidiol fel ieithoedd gwaith y Llywodraeth."*[105]

**101.** Yn ei hadroddiad blynyddol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, 2023 i 2024, mae Llywodraeth Cymru yn nodi data sgiliau iaith Gymraeg ei staff ar draws lefelau cymhwysedd.[106] Dangosodd hyn gynnydd yn nifer a chanran y staff nad oedd lefel eu cymhwysedd yn hysbys ar 31 Mawrth 2024, o'i gymharu â blwyddyn ynghynt. Mae troednodyn Llywodraeth Cymru i'r data yn dweud fel a ganlyn:

> *"Wrth symud i system o gofnodi manylion Adnoddau Dynol Newydd yn ystod 2023-24, mae dirywiad bach wedi bod yn lefel y data sydd gyda ni am sgiliau'r Gymraeg. Rydym yn mynd i'r afael â'r mater er mwyn lleihau'r nifer/canran o staff lle nad oes cofnod o'u sgiliau Cymraeg."*[107]

**102.** Gofynnodd y Pwyllgor pam fod hyn wedi digwydd. Esboniodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd fel a ganlyn:

> *"… moving from one system to another has resulted in data sets not being directly comparable. However, the data set on our new system, as of the year in question, identified that, of our workforce, 60 per cent of our colleagues have some proficiency in reading, between 50 per cent and 60 per cent have an understanding of Welsh, 51 per cent have the ability to speak a degree of Welsh. And when we look at fluency, about 25 per cent of our staff express a degree of fluency in Welsh language skills, so they are comfortable to undertake most if not all of their duties in Welsh. That's approximately 1,480 staff."*[108]

**103.** Ychwanegodd, dros y flwyddyn ddiwethaf, fod cynnydd sylweddol wedi bod yng ngallu hyfforddiant Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg. Ychwanegodd:

---

[105] Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2022 i 2023, Adran 3.1
[106] Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2022 i 2023, Adran 4
[107] Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2022 i 2023, Adran 4
[108] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 173

*"We've seen a significant uptake in the Welsh language support and development that we've put in place and, indeed, across the senior civil service in Welsh Government we have some very positive numbers there in terms of the individuals undertaking Welsh language lessons."*[109]

**104.** Gofynnodd y Pwyllgor, hefyd, wrth hysbysebu rôl y Cyfarwyddwr Addysg a'r Iaith Gymraeg, pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'r iaith Gymraeg fel sgil hanfodol.

**105.** Esboniodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd fel a ganlyn:

> *"There's always a desire to try and balance the market, and where the market is at the moment, with trying to find the key skills and talent that's required. Whenever we come together, including as a panel, to look at the job descriptions, we try to understand how successful are we going to be if we were to seek particular skills in a particular area. I note, for example, a job that went out at the same time—the director of culture—that was a Welsh language essential criteria role. We do make it clear in our adverts, and through the recruitment process, when we look at jobs, what the criteria is. It's always a delicate balance, but, on that occasion, for the director of education role, it was determined that it would be a 'desirable' characteristic, albeit one that, as we were testing the market, we would look to try and see if we were able to secure candidates who had those Welsh language skills. We were also clear, I think, to candidates that there's an expectation that anybody stepping into that role would be required to undertake Welsh language lessons, and to make sure that they can demonstrate some proficiency over a certain period of time."*[110]

## Datganiad Polisi Tâl 2024

**106.** Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2021-22, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth, erbyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r Cyfrifon ar gyfer yr un flwyddyn ariannol. Byddai hynny'n sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu cynnal gwaith craffu ar y Datganiad Polisi Tâl bob blwyddyn,

---

[109] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 174
[110] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 181

ochr yn ochr â'r cyfrifon[111]. Fodd bynnag, wrth gynnal gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23, roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd hyn yn wir.[112]

**107.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024 ar 19 Rhagfyr 2024, ychydig wythnosau ar ôl i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod Cyfrifon 2023-24, gan alluogi'r Pwyllgor i graffu arno.[113]

**108.** Nododd y Pwyllgor, yn Atodiad 4, fod Llywodraeth Cymru yn rhestru ei huwch-staff a oedd yn ennill £100,000 neu fwy ar 31 Mawrth 2024, gan nodi bod y rhain yn cynnwys staff ar y gyflogres, a staff oddi ar y gyflogres/ar secondiad.[114] Mae hefyd yn gosod tabl ar wahân i restru'r aelodau staff hynny sydd â chyflogau cyfwerth ag amser llawn dros £100,000 ond y talwyd llai na £100,000 iddynt gan eu bod o bosibl yn gweithio'n rhan-amser neu wedi ymuno ar ganol blwyddyn.[115] Mae hyn yn dangos bod cyflog amser llawn Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn y band £205k-£210k ond roedd ei chyflog gwirioneddol ar 31 Mawrth 2024 yn y band £70k i £75k, ac mae colofn olaf y tabl yn awgrymu bod hynny oherwydd gweithio rhan-amser.[116]

**109.** Holodd y Pwyllgor a oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn gweithio rhan-amser, gan nad oedd Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn nodi unrhyw newidiadau i'w horiau gwaith. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd hyn yn wir: Roedd Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn gweithio llawn amser[117] ond roedd wedi trosglwyddo o'r GIG i'r Gwasanaeth Sifil yn ystod y flwyddyn.[118]

---

[111] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adroddiad ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, argymhelliad 10, Hydref 2023
[112] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2022-23: Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2024, paragraff 121
[113] Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024
[114] Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024, tudalen 14
[115] Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024, tudalen 16
[116] Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024, tudalen 16
[117] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 185
[118] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 187

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

**110.** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer rownd cyllido 2014-2020.

**111.** Roedd gwariant ar brosiectau tan 31 Rhagfyr 2023 yn gymwys i gael cymorth yr Undeb Ewropeaidd, gyda'r holl wariant terfynol ar brosiectau yn cael ei gyfrif ym mlwyddyn gyfrifo 2023-24.

**112.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys tablau yn ei Chyfrifon ar gyfer 2023-24 i ddangos y cymeradwyaethau yn ôl rhaglen, cyfanswm prosiectau cymeradwy a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd a dadansoddiad o gyfanswm hawliadau fesul sector, i gyd fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2024. Mae, hefyd, yn nodi gwybodaeth am y taliadau grant ar gyfer pob mis yn ystod 2023-24.

**113.** 'Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE'[119] (Mehefin 2023), dywedodd Archwilio Cymru bod "WEFO a Llywodraeth Cymru wedi nodi capasiti staff fel risg i brosesu a gwirio hawliadau mewn pryd a rheoli'r broses o derfynu'r rhaglenni".[120]

**114.** Fe wnaethom ofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru sut y maen nhw'n cydbwyso cynnal adnoddau yn WEFO i gynorthwyo'r gwaith o gau'r rhaglen ac adleoli staff i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

**115.** Cawsom wybod y canlynol:

> *"Mae WEFO wedi talu'r holl hawliadau terfynol a gyflwynwyd gan fuddiolwyr ac mae wedi cyflwyno ei hawliadau terfynol ei hun i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 13 Chwefror 2025. Mae WEFO wedi hawlio cymaint o gyllid yr UE â phosibl ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 ar gyfer pum Rhaglen. Mae WEFO wedi hwyluso buddsoddiad gwerth €4.5biliwn, gan gynnwys €2.5biliwn o gyllid yr UE a €2biliwn o Fuddsoddiad cyhoeddus a Phreifat. Mae'r mwyafrif o staff WEFO wedi cael eu symud i rolau newydd yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae WEFO wedi cadw digon o adnoddau staff i ymgymryd â'i rhwymedigaethau rheoliadol a rheoli'r*

[119] Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig, 2 Mehefin 2023
[120] Adroddiad Archwilio Cymru, Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig, 2 Mehefin 2023, tudalen 25

> *broses o gau rhaglenni, gan gynnwys yr archwiliadau rheolaidd o hawliadau terfynol."*[121]

## Ein barn ni

**116.** Rydym yn croesawu'r ffaith y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn ystyried rhannu copi o'r adroddiad a ollyngwyd am ei Adran Ddiwylliant gyda'r Pwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd galluogi staff i rannu eu profiadau heb ofni cael eu hadnabod, na rhannu eu barn yn gyhoeddus. Serch hynny, roedd clywed yr adroddiadau hyn yn destun pryder i'r Pwyllgor.

**117.** Yn fwy cyffredinol, rydym o'r farn bod trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn hanfodol i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant y gweithlu. Mae hynny'n bwysicach nag erioed ar hyn o bryd, gyda phwysau ar adnoddau, a'r heriau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu wrth gydbwyso'r gyllideb ar gyfer ei gweithlu.

**118.** Rydym yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru am adolygu ei threfniadau rheoli perfformiad o dan Lywodraeth Cymru 2025. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi gwybodaeth am gwmpas y gwaith hwn, a pha bryd y bydd yr adolygiad yn barod.

**119.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai problemau iechyd meddwl sy'n gyfrifol am bod bron i hanner absenoldeb salwch hirdymor Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi'r darlun llawn. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r data cyfatebol ar gyfer absenoldebau tymor byr, yn ogystal â data tueddiadau ar gyfer absenoldebau salwch tymor byr a thymor hir fel ei gilydd oherwydd problemau iechyd meddwl, er mwyn dangos sut y gallai hyn fod wedi newid dros amser. Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ei hargymhelliad ac y bydd, o 2024-25 ymlaen, yn cynnwys dadansoddiad o'r data absenoldeb salwch yn ei chyfrifon.

**120.** Rydym yn pryderu am yr achos o dorri data yn y system Adnoddau Dynol newydd, Pobl. Calonogol oedd clywed bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad ar unwaith, ac eisoes wedi gweithredu 14 allan o 18 o'r argymhellion a ddeilliodd o hynny. Fodd bynnag, byddem yn croesawu gwybodaeth am y math o ddata y gallai rheolwyr llinell ei weld, na ddylent fod wedi gallu ei weld.

**121.** Rydym yn siomedig o weld bod y symud i'r system newydd wedi arwain at ddirywiad yn nata Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg, ond nodwn fod hyn yn

[121] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

cael sylw. Byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2024-25.

**122.** Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2024 mewn pryd i'r Pwyllgor gynnal gwaith craffu ochr yn ochr â Chyfrifon 2023-24. Fodd bynnag, wrth baratoi'r datganiad polisi cyflog, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n osgoi unrhyw gamddealltwriaeth.

**123.** Nodwn esboniad yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer y wybodaeth am gyflogau, yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024, ar gyfer Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, a oedd yn awgrymu ei bod yn gweithio'n rhan-amser. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru sicrhau, yn y dyfodol, nad yw'r wybodaeth yn ei datganiad polisi tâl yn gamarweiniol a'i bod yn gyson â'r wybodaeth am daliadau yn y cyfrifon blynyddol.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am ei hadolygiad o'i threfniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys y cwmpas a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu data ar gyfer nifer yr achosion o absenoldeb staff tymor byr oherwydd problemau iechyd meddwl, a darparu data tueddiadau ar gyfer absenoldebau tymor byr a thymor hir oherwydd problemau iechyd meddwl, i ddangos sut y gallai hyn fod wedi newid dros amser.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am yr achos o dorri data yn system Pobl, a pha fath o ddata y gallai rheolwyr llinell ei weld, na ddylent fod wedi gallu ei weld.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r modd y cyflwynwyd cyflog Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn ei Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024 ac yn sicrhau, yn y dyfodol, nad yw'r wybodaeth yn gamarweiniol, a'i bod yn gyson â'r wybodaeth am daliadau yn y cyfrifon blynyddol.

**124.** Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cadarnhau iddi gadw staff i reoli'r broses o gau rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yng Nghymru. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi gallu adleoli mwyafrif y staff o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, hefyd.

# 7. Gwariant Llywodraeth Cymru

## Alldro

**125.** Mae Adroddiad Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn dangos, yn gyffredinol, £112.5 miliwn, neu 0.6 y cant, o danwariant net ar sail cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol ('DEL') Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi neu'r adran, y tanwariant net ar gyfer cyllideb ariannol DEL oedd £62.3 miliwn, neu 15.1 y cant. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y tanwariant mwyaf o fewn hyn yn ymwneud â Banc Datblygu Cymru (£27.1 miliwn) "o ganlyniad i gyfrif am ei alldro ar ddiwedd y flwyddyn".[122][123]

**126.** Gofynnodd y Pwyllgor pa gamau gweithredu na wnaeth Banc Datblygu Cymru eu cymryd, gan arwain at danwariant. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cyllid fel a ganlyn:

> *"… I will have to go back into the detail of it as well, I think it was the alignment between the account that the development bank has with us, and then a misalignment. I don't think anything was stopped as a result of it. It's that reason, basically, but I'll have to come back with more detail."*[124]

## Ein barn ni

**127.** Rydym yn croesawu cyhoeddi'r Adroddiad Alldro mewn digon o amser i'r Pwyllgor gynnal gwaith craffu arno, ochr yn ochr â'r cyfrifon blynyddol. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod pam y gwnaeth Banc Datblygu Cymru danwario yn erbyn ei gyllideb ariannol DEL. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y mater hwn, ac yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth.

**128.** Yn unol â'i hymrwymiad i wneud hynny, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, gyda sylwadau manwl, pam y cofnododd Banc Datblygu Cymru danwariant o £27.1m yn erbyn ei gyllideb ariannol Terfyn Gwariant Adrannol.

---

[122] Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar Alldro 2023-24 Paragraff 2.9
[123] Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar Alldro 2023-24, paragraff 2.6
[124] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 206

# 8. Llywodraethiant a Sicrwydd

## Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

**129.** Cafodd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n gosod y fframwaith a'r egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol er budd y cyhoedd, ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Ionawr 2016[125].

**130.** Fel rhan o'i waith craffu ar Gyfrifon 2021-22, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ynghyd â syniad o ba bryd mae'n debygol iddo gael ei gyhoeddi[126].

**131.** Ym mis Hydref 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, o ystyried y goblygiadau o ran adnoddau, fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid newydd i "nodi'r elfennau hanfodol hynny o fewn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru y mae angen eu diweddaru ar unwaith. Dyma'r elfennau y byddwn yn rhoi blaenoriaeth iddynt." Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi penodau wrth iddynt gael eu diweddaru ond y byddai swyddogion yn "cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfen gyfan". Ei nod oedd cwblhau hyn erbyn mis Rhagfyr 2025.[127]

**132.** Yn ei ymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23[128], dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai swyddogion yn dechrau gyda phenodau yr oedd y Pwyllgor wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu diweddaru, gan nodi pedwar maes[129]. Ailbwysleisiodd y byddai Llywodraeth Cymru yn anelu at ddiweddaru'r ddogfen gyfan erbyn mis Rhagfyr 2025 er ei bod yn cyfeirio at yr amserlen hon fel un "dros dro", gan ychwanegu "efallai y bydd yr amserlen hon yn cael ei haddasu yn seiliedig ar flaenoriaethau croes eraill."[130]

---

[125] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru – Ionawr 2016
[126] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22 – Llywodraeth Cymru, Hydref 2023, paragraff 175
[127] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 3 Hydref 2024
[128] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon: Llywodraeth Cymru 2022-23, Rhagfyr 2024
[129] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 15 Ebrill 2024
[130] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

## Proffil risg

**133.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2023-24, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys trosolwg o'i Chofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn sgorio pob risg ac yn defnyddio system goleuadau traffig wedi ei haddasu i ddangos ym mha gategori mae'n disgyn (coch - uchel iawn, risgiau allweddol; ambr – risgiau uchel, perthnasol; melyn – canolig, risgiau y gellir eu rheoli, a gwyrdd – risg isel, risgiau dibwys).[131]

**134.** Mae'n rhestru 28 risg, sy'n cynnwys 21 risg ym mis Ebrill 2023 a saith risg newydd wedi eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu, o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, saith risg yn 2023-24, yn ogystal ag un o'r rhai a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn, gan adael 20 risg ym mis Ebrill 2024.[132]

**135.** O'r saith risg newydd a ychwanegwyd, dim ond naratif ar gyfer yr un a ddilewyd yn ystod y flwyddyn sydd yng Nghyfrifon 2023-24. Nid yw'n egluro natur y chwe risg arall, y mae dau ohonynt wedi'u dosbarthu fel risgiau uchel iawn a chritigol. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad ynghylch pam y mae'r chwe risg hyn wedi'u cynnwys, a sut maen nhw'n cael eu lliniaru.

**136.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cyfrifon blynyddol eleni wedi newid o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a'u bod wedi ceisio helpu'r ddealltwriaeth drwy roi mwy o wybodaeth o ran yr ochr risg. Roedd yn derbyn, fodd bynnag, bod hynny'n dal i fod yn gyfyngedig o ran yr hyn y mae'n ei ddisgrifio.[133] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"We had added in, for example, some concerns about the future of public transport as a risk, which the label may not really reveal what that was all about, but this was a concern about the reduced fare revenues that had happened in having the experience of reduced use of public transport after COVID-19. This had led to additional financial pressures, actually, right across the sector, and there wasn't really a way of mitigating that at this stage. But we removed that one in January of this year because the risk, really, had been mitigated as*

[131] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 121
[132] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24, tudalen 121
[133] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 219

> *passenger levels have increased, and have recovered, basically, to that previous position."*[134]

**137.** Manylodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar risgiau eraill gan gynnwys pryderon ynghylch iechyd a diogelwch ar ran y sefydliad, newid hinsawdd ac a fydd y targedau statudol yn cael eu bodloni, materion cyfansoddiadol yn ymwneud â chynigion cydsyniad deddfwriaethol a phryder eu bod ond yn gweld achosion o dorri confensiwn Sewel, ac ymateb brys oherwydd pryderon ynghylch ymatebion cydnerthedd parhaus, ac a oes gan Lywodraeth Cymru'r capasiti a'r cydnerthedd ar waith i gyflawni hynny.[135]

**138.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y gofrestr risg yn ddeinamig, yn hytrach na rhywbeth sydd yno am byth, a'u bod, mewn gwirionedd, yn gweithio eu ffordd drwy rai o'r materion hynny.[136] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Firstly, from an organisational perspective, I have to say we spent an awful lot of time on the risk register over the last couple of years, not just the industry of it, but actually making sure that we are triggering responses and actions and the agenda of Welsh Government itself. So, we use the corporate risk registers as a way of overseeing the performance of the organisation, although it's not necessarily about overseeing areas that Ministers will be responsible for. But we have also introduced a specific area that you might have seen highlighted, which was that we produced a version of a Welsh risk register that's been put into the public domain. It will always have some limitations. There are some areas that will be more confidential, but I think it allows the public to have a wider understanding of the types of pressures that can be faced by Welsh Government, by public services, and actually by communities themselves."*[137]

[134] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 219
[135] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 222
[136] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 220
[137] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 228

## Archwiliad Mewnol o Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Llywodraeth Cymru

**139.** Mae Cyfrifon 2023-24 yn cynnwys crynodeb o farn y Pennaeth Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dangos, yn achos y 48 adroddiad a gyhoeddwyd:

- Roedd gan 8 sicrwydd sylweddol.
- Roedd gan 26 sicrwydd rhesymol.
- Roedd gan 4 sicrwydd cyfyngedig.
- Doedd gan 1 ddim sicrwydd.
- Roedd 9 yn gynghorol ac ni fynegodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn.[138]

**140.** Rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn 'dim sicrwydd' yn dilyn adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn 2023-24. Roedd hyn yn dilyn yr adolygiad yn 2022-23 pan roddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn 'dim sicrwydd' ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r fframweithiau strategol arfer gorau ar gyfer cyflawni prosiectau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu rhaglen i gryfhau ei Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn dilyn adroddiad 2022-23, ond nododd fod "cynnydd annigonol o ran cyflawni prosiectau blaenoriaeth a ffrydiau gwaith y Rhaglen hon wedi arwain at 'ddim sicrwydd' pellach eleni"[139]

**141.** Yn ôl Llywodraeth Cymru:

> *"Nododd adroddiad yr Archwiliad fod angen proffesiynoldeb, llywodraethu, cymorth ac arweiniad ym maes Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hagenda newid a bod angen i fwy o arferion, sgiliau a phresenoldeb o ran Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau fod yn weladwy ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru."*[140]

[138] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[139] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[140] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

**142.** Mae'n ychwanegu: "Er mwyn cyrraedd lefel Da, mae angen ymdrin â 141 o argymhellion ac er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, cydnabyddir y bydd yn cymryd amser i'w roi ar waith a'i ymgorffori ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru".[141]

**143.** Mae'n dweud y canlynol:

> *"Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn gam cadarnhaol ymlaen, ond y cam nesaf fydd cael darlun llawnach o'r gweithwyr proffesiynol prosiect yn Llywodraeth Cymru, sef y sbardun i ymgorffori'r lefel o newid diwylliannol sydd ei hangen."*[142]

**144.** Mae'n nodi ei bod eisoes wedi recriwtio nifer o weithwyr proffesiynol ychwanegol ym maes rheoli rhaglenni a phrosiectau i'w strwythur, a'i bod wrthi'n edrych i ymgorffori/datblygu arbenigedd a gallu yn y maes hwnnw ym mhob gradd ar draws y tîm. At hynny, mae mynd i'r afael â phob un o'r 141 o argymhellion yn golygu deall capasiti a galluoedd y sefydliad, gan gynnwys yr amser angenrheidiol y byddai'n ei gymryd i fynd i'r afael â'r newidiadau y mae am eu gwneud, a mabwysiadu prosesau/offer newydd.[143]

## Y Gronfa Caderndid Economaidd – Monitro ar ôl cwblhau

**145.** Yn ei Adroddiad Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21, dywedodd y Pwyllgor:

> *"Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru o ran cwblhau ei gwaith Monitro ar ôl Cwblhau fel rhan o'n gwaith craffu yn y dyfodol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud."*[144]

**146.** Darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariadau rhwng gwaith craffu'r Pwyllgor ar ei chyfrifon ar gyfer 2021-22 a 2022-23.

---

[141] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[142] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[143] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[144] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21, argymhelliad 15

Yng Nghyfrifon 2023-24, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi parhau i fonitro ac adolygu'r arian a ddefnyddir i ddarparu cymorth busnes yn ystod y pandemig. Mae'n dweud nad yw hyn wedi canfod unrhyw fater arwyddocaol, nac achosion nac adferiadau o ganlyniad i dwyll mewn cynlluniau a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru.[145]

**147.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> "*Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Ymadael sy'n pwyso ac yn mesur cost a budd parhau â gwaith monitro ar ôl cwblhau (PCM) y Gronfa Cadernid Economaidd, gan gydnabod y bydd y buddion yn arafu po hwyaf y bydd PCM yn parhau.*"[146]

**148.** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol y wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn:

> "*… on the ongoing monitoring around how businesses were supported through COVID, we've not yet completed all of those—that's why it's not reflected in the annual accounts. Certainly, on the tests of concerns of fraud or error rates, they've been maintained at the lowest levels. Just again to say that even whilst we were under scrutiny before, we were reporting levels that were below 1 per cent. Comparatively, England was reporting about an 8 per cent level, and I think Scotland at around 6 per cent, but that was in part because of the way in which we established those schemes in the first place. So, all of the post-completion monitoring is not yet finished, but everything is indicating to us that we've got a similar level of very low error that has been reported as well. I'm happy to provide a note, Chair, as those things are updated, but hopefully, as we come into the next set of accounts, we'll be able to be clearer anyway on it, because it's still been ongoing.*"[147]

**149.** Mewn perthynas â grantiau busnes COVID, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol: "*In our experience, this is a very low level of error and potential fraud*

[145] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[146] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[147] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 212

*being reported, and we've not had to pursue anything, really, of significance in that environment.”*[148]

## Adolygiad wedi'i deilwra o gyrff hyd braich

**150.** Mae'r Pwyllgor wedi ceisio diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei rhaglen ar gyfer adolygiadau wedi'u teilwra, a'r asesiad risg, o'i chyrff hyd braich. Roedd hyn yn dilyn pryderon ei Bwyllgor rhagflaenol ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu ei gweithdrefnau galw i mewn, a'i ddiddordeb dilynol yn y broses adolygu wedi'i theilwra, o ystyried ei hamcan o roi sicrwydd i Weinidogion, y Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r cyrff hyd braich ynghylch a ydynt yn ‘dal i fod yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli’n dda ac yn briodol atebol.’[149]

**151.** Ym mis Medi 2018, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd wrth Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu offeryn risg er mwyn pennu pa bryd y byddai adolygiad o gorff hyd braich yn fuddiol.[150]

**152.** Ym mis Mawrth 2022, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn defnyddio'r model ‘Adnodd Defnyddiol i Asesu Risg’ ('HART'), ac wedi ymgynghori ynghylch defnyddio’r adnodd. Nododd y byddai'n defnyddio'r model HART i asesu risg pob corff hyd braich erbyn Chwefror 2023.[151]

**153.** Ar 14 Rhagfyr 2023, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol ar y pryd wrth y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn symud i fodel hunanasesu newydd - fersiwn wedi ei haddasu o fodel a gynhyrchwyd gan Swyddfa’r Cabinet - ar gyfer yr adolygiad wedi ei deilwra o’i chyrff hyd braich. Disgrifiodd y Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd y model newydd fel un llawer mwy priodol [152], gan egluro fel a ganlyn:

> *“We aim to review the self-assessment model early in the new year and then pilot it and roll it out to organisations following on from that,*

[148] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 19 Chwefror 2025, paragraff 214
[149] Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021, paragraffau 52 a 56
[150] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, 25 Medi 2018, tudalen 2
[151] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Mawrth 2022
[152] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 66

> *and that then forms the risk assessment process that would lead into a tailored review programme around specific organisations."*[153]

**154.** Ychwanegodd fod adolygiadau o sefydliadau unigol wedi eu gohirio tra bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ac yn addasu'r model hunanasesu. Byddai ei adolygiadau thematig yn parhau.[154]

**155.** Nodir yng Nghyfrifon 2023-24 bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad wedi ei deilwra o recriwtio i'r bwrdd (Mehefin 2024) ac roedd wedi cynnal Adolygiad wedi ei Deilwra o siarteri brenhinol cyrff cyhoeddus.[155]

**156.** Yn ei hymateb diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw wedi gweithredu'r dull hunanasesu, hyd yn hyn.[156] Mae wedi cwblhau'r "cam treialu cychwynnol", a byddai swyddogion yn ceisio cytundeb gan uwch swyddogion i'w ddefnyddio ar gyfer cam treialu estynedig ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru y tu allan i'r GIG a sectorau llywodraeth leol.[157] Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn nodi y bydd gofyn i gyrff hyd braich gwblhau'r hunanasesiad erbyn 31 Mawrth 2026.[158]

**157.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol, hefyd, fod Llywodraeth y DU wedi atal ei rhaglen Adolygiadau Teilwredig. Mae'n cynghori fel a ganlyn:

> *"O ganlyniad, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ailddechrau rhaglen o Adolygiadau Teilwredig ond mae'n ystyried cynnig nifer o opsiynau ar gyfer adolygiadau manylach, pellach o gyrff. Bydd hyn yn cynnig dull gweithredu mwy hyblyg o gynnal adolygiadau yn seiliedig ar ganlyniadau pob ymarfer hunanasesu."*[159]

**158.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n rhoi diweddariad pellach ar gyflwyno'r ymarfer hunanasesu "maes o law".[160]

---

[153] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 66
[154] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 67
[155] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[156] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[157] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[158] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[159] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[160] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

**159.** Ar 6 Mehefin, rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor.[161] Nododd hynny, ym mis Mai 2025, fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei model hunanasesu ar gyfer Cymru, a chanllawiau i'w chyrff hyd braich eu defnyddio. Dilynodd hyn gynllun peilot, a gynhaliwyd ddiwedd 2024 a dechrau 2025.

**160.** Mae'r canllawiau'n cynnwys yr egwyddorion canlynol ar gyfer yr adolygiadau hunanasesu:

- Dylai pob corff fod yn destun hunanasesu unwaith y flwyddyn.
- Dylai'r hunanasesu gael ei gwblhau ar y cyd gan y tîm partneriaeth a'r corff.
- Mae'r model hunanasesu ar gyfer Cymru wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio fel cam cyntaf wrth asesu unrhyw faterion i'w hadolygu ymhellach. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw'n "darparu golwg derfynol a manwl gywir ar yr angen am adolygiad manylach ond mae'n cynnig arwydd o berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad sylfaenol.".[162]
- Dylai pob corff gael adolygiad manwl o leiaf unwaith ym mhob un o dymhorau'r Senedd (unwaith bob pedair blynedd).

**161.** Yn ôl Llywodraeth Cymru:

> *"Pan nodir gan Lywodraeth Cymru neu'r corff ei hun fod angen adolygiad ehangach, mae nifer o ddulliau adolygu ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys canolbwyntio ar faterion allweddol a nodwyd yn ystod yr asesiad, Adolygiad Ffrind Beirniadol neu adnodd tebyg gan Borth Bolisïau a Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, neu Adolygiad Cyflym a arweinir yn fewnol."*[163]

**162.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi gofyn i gyrff hyd braich, nad ydynt wedi cael eu hadolygu ers 2021, i "gynnal hunanasesiad … yn ogystal ag ystyried yr angen am adolygiad ehangach o'r sefydliad, gan adrodd ar y

[161] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025
[162] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025
[163] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025

canlyniadau erbyn 31 Mawrth 2026."[164] Ymddengys ei fod yn cyfeirio at hyn fel y "Cyfnod Prawf".[165] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"Mae'n bosibl y bydd materion a rennir yn arwain at ddiwygiadau pellach fel bod Model y cytunir arno ar waith ar gyfer tymor nesaf y llywodraeth. Nid oes angen i'r cyrff sy'n weddill gymryd unrhyw gamau eleni ond fe'u hanogir i ystyried sut i ddefnyddio'r hunanasesiad yn y dyfodol."*[166]

**163.** Mae'r nodiadau canllaw yn nodi bod angen i gyrff hyd braich anfon eu hunanasesiadau wedi'u cwblhau at Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae'n dweud y canlynol:

> *"Bydd y Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus (Cyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyrff cyhoeddus) yn ystyried y canlyniadau oddi wrth wahanol gyrff ac yn ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar gyfer y model hunanasesu ac adolygiadau ehangach ar ôl i'r Cyfnod Peilot ddod i ben."*[167]

**164.** Roedd y llythyr yn cynnwys rhestr o 48 corff hyd braich Llywodraeth Cymru.

## Ein barn ni

**165.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oedd llythyr diweddaraf yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn nodi pa bryd yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cwblhau ei hadolygiad o'r pedwar maes y mae wedi'u blaenoriaethu ar gyfer eu diweddaru. Mae'n destun pryder, hefyd, i'r Pwyllgor bod yr Ysgrifennydd Parhaol, i bob golwg, yn tynnu'n ôl o'i ymrwymiad blaenorol i ddiwygio'r ddogfen gyfan erbyn mis Rhagfyr 2025.

**166.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru fel y fframwaith ac egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol, ac er budd y cyhoedd[168], ac ar ôl dweud i'w Chanolfan Ragoriaeth Llywodraethiant

[164] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025
[165] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025
[166] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025
[167] Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru 6 Mehefin 2025
[168] Llywodraeth Cymru, Rheoli arian Cyhoeddus Cymru

Corfforaethol ddechrau adnewyddu Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2021, mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau.

**167.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd a wnaed, ac yn ceisio esboniad, os na fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariad o Reoli Arian Cyhoeddus Cymru erbyn mis Rhagfyr 2025.

**168.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn croesawu'r datgeliadau ychwanegol am risgiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn ei chyfrifon. Mae'r cyflwyniad yn nodi'n glir y risgiau ym mis Ebrill 2023, blwyddyn y newidiadau a'r sefyllfa ym mis Ebrill 2024. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru, hefyd, gynnwys yn ei chyfrifon, wybodaeth am y risgiau newydd a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn, a sicrhau ei bod yn dilyn yr arfer gorau wrth adrodd am risgiau.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn croesawu'r datgeliadau ychwanegol am risgiau yng Nghyfrifon 2023-24 Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r wybodaeth mewn ffordd glir ac atyniadol. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys, yn ei chyfrifon blynyddol, sylwadau am y risgiau newydd a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn ,ac yn sicrhau ei bod yn dilyn arfer gorau wrth adrodd ar risgiau.

**169.** Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi problemau sylweddol gyda Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Llywodraeth Cymru. Nodwn safbwynt Llywodraeth Cymru fod y gwaith yn mynd rhagddo, ac y bydd yn cymryd amser i weithredu a gwreiddio newid ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ei bod yn gwneud hynny. Byddwn yn olrhain y mater hwn yn ein gwaith craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

**170.** Nodwn fod adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith Cymru[169] hefyd yn cyfeirio at ganfyddiadau'r archwiliad mewnol fel rhan o'i sylwadau ei hun ar ddull Llywodraeth Cymru o reoli rhaglenni a phrosiectau. Mae'r adroddiad yn nodi fel a ganlyn:

> *"… wrth edrych yn ôl dros ddegawd, bod Llywodraeth Cymru wedi nodi cynlluniau i wella trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau yn ei chyfrifon blynyddol ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Dywedodd ar y pryd ei*

[169] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith Cymru (Mai 2025)

> *bod wedi sefydlu canolfan arbenigedd, wedi ailsefydlu cymuned ymarfer, ac wedi lansio hyfforddiant ar gyfer staff."*[170]

**171.** Fodd bynnag, ychwanegodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fel a ganlyn:

> *"Mae'r canfyddiadau archwilio mewnol diweddar yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal gwelliannau blaenorol. Yn ystod ein gwaith maes ni, canfuom nad oedd gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth glir am sgiliau rheoli rhaglenni a phrosiectau seilwaith ar draws y sefydliad."*[171]

**172.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud ei argymhellion ei hun ynghylch gwelliannau brys i reoli rhaglenni a phrosiectau, ac rydym yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru. Rydym yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i fonitro ac adolygu'r arian a ddyrannwyd ar gyfer cymorth i fusnesau yn ystod y pandemig. Nodwn fod Llywodraeth Cymru i gyhoeddi hysbysiad ffurfiol ar gyfer adennill grantiau a ddyfarnwyd o'i Chronfa Cadernid Economaidd, lle nad yw derbynnydd wedi ymateb i ddarparu gwybodaeth fonitro. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn nodi data ynghylch nifer a gwerth grantiau o'r fath. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru rannu'r wybodaeth hon.

**173.** Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, a chynnwys gwybodaeth yn ei gyfrifon, am lefel y twyll a'r gwallau yn ei grantiau busnes COVID-19 wedi i Lywodraeth Cymru orffen monitro ar ôl cwblhau. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am nifer a gwerth cyffredinol grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd y gwnaeth ddyfarnu, neu y mae'n mynd i ddyfarnu, hysbysiad ffurfiol ar eu cyfer, er mwyn adennill grant, ar ôl peidio â chael y wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan y derbynnydd.

**174.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r diweddariad am y model hunanasesu. Fodd bynnag, mae pa mor hir a gymerodd i Lywodraeth Cymru weithredu dull sy'n seiliedig ar risg o gael sicrwydd ynghylch ei chyrff hyd braich yn rhywbeth sy'n peri dryswch inni. Ym mis Medi 2018, hysbysodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd ein Pwyllgor rhagflaenol fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu offeryn risg er mwyn

---

[170] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith Cymru (Mai 2025), paragraff 3.18
[171] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith Cymru (Mai 2025), paragraff 3.19

pennu pa bryd y byddai'n fuddiol cael adolygiad o gorff hyd braich. Fodd bynnag, mae hi wedi cymryd mwy na chwe blynedd i Lywodraeth Cymru, gyda newidiadau yn y dull gweithredu, gan gynnwys symud i hunanasesu, i weithredu'r trefniadau ar gyfer "Cyfnod Prawf": nid yw wedi cytuno ar ei fodel hunanasesu, hyd yn hyn.

**175.** Ni ddisgwylir adrodd ar ganlyniadau'r ymarfer hunanasesu yn 2025-26 tan 31 Mawrth 2026. Mae hyn yn golygu na fydd y Pwyllgor yn gallu eu hystyried cyn diwedd tymor y Senedd hwn, sy'n siomedig. Byddwn yn cyfeirio at y materion hyn yn ein hadroddiad etifeddiaeth, i'w ystyried gan ein pwyllgor olynol yn nhymor nesaf y Senedd.

**176.** Bydd y Pwyllgor, hefyd, yn manteisio ar y cyfle i archwilio proses Llywodraeth Cymru yn ystod ein gwaith craffu ar gyfrifon yn ystod yr hydref hwn. Cyn hynny, rydym yn nodi ein hamheuon. Er ein bod yn cydnabod i Lywodraeth Cymru ddweud bod ganddi nifer o ddulliau adolygu ar gael, mae gennym amheuon ynghylch y cynllun i bob corff hyd braich gael adolygiad manwl ym mhob un o dymhorau'r Senedd (bob pedair blynedd). Gan gydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi oedi ei rhaglen yng nghanol tymor y Senedd hwn, dim ond ar gyfer dau gorff hyd braich y cwblhawyd adolygiadau teilwredig, hyd yn hyn, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru (mis Medi 2020)[172] ac Amgueddfa Cymru (Gorffennaf 2023)[173], ochr yn ochr ag adolygiadau thematig.

**177.** O ran y dull ar gyfer adolygiadau manwl, nid ydym yn deall pam fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag ailgychwyn ei rhaglen o adolygiadau teilwredig yn ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i atal ei rhaglen gyfatebol. Byddem yn croesawu esboniad ar y cam hwn.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam y mae ei phenderfyniad i beidio ag ailgychwyn ei rhaglen o adolygiadau teilwredig yn ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i atal ei rhaglen gyfatebol.

[172] Adolygiad teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru
[173] Amgueddfa Genedlaethol Cymru: adolygiad wedi'i deilwra

# 9. Mater i'w olrhain

## TVR Automative

**178.** Ym mis Gorffennaf 2024, ystyriodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch cefnogaeth Llywodraeth Cymru i TVR Automotive Ltd (TVRA).[174] Nododd y llythyr, ar y pryd, fod gan Lywodraeth Cymru gyfran ecwiti yn TVRA, ar sail ei buddsoddiad cyfranddaliadau o £0.5m yn 2016. Fodd bynnag, gostyngwyd y gyfran ecwiti hon i 1.6% o gyfanswm y cyfranddaliadau oherwydd buddsoddiad Ensorcia. Ym mis Mehefin 2023, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb cyfranddalwyr newydd gyda TVRA a sicrhau cytundeb prynu parhaus y gall ei arfer pryd bynnag y bydd yn dewis gwerthu ei chyfranddaliadau yn ôl i TVRA am 100% o'r gwerth teg.

**179.** Roedd swyddogion, ar adeg llythyr Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor, yn paratoi cyngor gweinidogol am benderfyniad ynghylch y cyfranddaliad. Naill ai gwerthu'r cyfranddaliadau'n ôl i TVRA am y gwerth y cytunwyd arno, neu gadw'r cyfranddaliadau yn y gobaith y bydd pris y cyfranddaliadau'n cynyddu o'r gwerth presennol, a allai gynhyrchu enillion mwy cadarnhaol ar y buddsoddiad gwreiddiol.

**180.** Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu i brydlesu'r ffatri wedi'i hadnewyddu yng Nglynebwy i denant arall, a allai gynhyrchu tua £0.735m y flwyddyn dros gyfnod prydles o 10 i 15 mlynedd, gan roi cyfanswm elw o £7.350m – £11.025m miliwn. Er bod yr eiddo wedi denu "rhywfaint o ddiddordeb yn y farchnad", nid oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn unrhyw gynigion ffurfiol i brydlesu'r ffatri.[175]

**181.** Mewn gohebiaeth ysgrifenedig, gofynnwyd i Swyddogion Llywodraeth Cymru a yw Llywodraeth Cymru yn parhau i ddal cyfran ecwiti yn TVR Automotive ac, os felly, sut mae hyn yn cynrychioli gwerth am arian.

**182.** Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru fod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd, ym mis Awst 2024, wedi cymeradwyo gwerthu'r holl gyfranddaliadau a ddelid gan Lywodraeth Cymru yn

[174] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i TVR Automotive Ltd, 12 Gorffennaf 2024
[175] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i TVR Automotive Ltd, 12 Gorffennaf 2024

TVR Automotive Limited am 'Werth Marchnadol Teg', yn unol â chytundeb y cyfranddalwyr.[176]

**183.** Ar ben hynny, nododd y llythyr nad yw'r gwaith o sefydlu'r gwerth marchnadol teg yn syml a bod “TVRA yn dal i fod yn endid cyn refeniw ac iddo ychydig iawn o werth o ran asedau y tu hwnt i frandio ac nid oes fawr ddim cymariaethau diwydiant na chynllun busnes nad yw wedi cael ei gyflawni eto. Nid yw’r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto (a delir buddran ecwiti o hyd) ond mae cyd-drafodaethau yn mynd rhagddynt”.[177]

**184.** Fe wnaethom ofyn, hefyd, a oedd Llywodraeth Cymru, bellach, wedi prydlesu’r ffatri wedi’i hadnewyddu yng Nglynebwy; ac os felly, gofynnwyd am wybodaeth am delerau’r brydles, ac a fyddai’n cynhyrchu’r elw disgwyliedig. At hynny, fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am nifer yr eiddo masnachol gwag y mae'n eu dal yn ehangach ledled Cymru, a sut y mae'n penderfynu pa bryd i'w gwerthu.

**185.** Yn ei gohebiaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru: “Mae’r eiddo yn dal i fod yn wag ond mae darpar feddiannydd wedi gwneud ymholiad gweithredol yn ei gylch. Mae trafodaethau/negodiadau yn mynd rhagddynt.”[178]

**186.** O ran portffolio eiddo masnachol Llywodraeth Cymru yn fwy eang, cawsom wybod y canlynol:

> *“Ceir lefel eiddo gwag o tua 12% ar yr ystad y gellir ei gosod ar hyn o bryd. Mae 17 o adeiladau cyfan yn wag ar hyn o bryd nad ydynt ar gael i’w gosod ar rent am resymau megis bod angen eu hadnewyddu, eu bod yn destun cynnig, neu eu bod yn aros i gael eu dymchwel. Caiff asedau ym mhortffolio’r Economi eu gwerthu naill ai’n unol ag amcanion polisi Datblygu Economaidd, neu pan nodir nad oes eu hangen mwyach i gyflawni polisi.”*[179]

## Ein barn ni

**187.** Rydym yn cydnabod bod angen taro cydbwysedd rhwng buddsoddi arian cyhoeddus i wneud y mwyaf o fuddsoddiad yng Nghymru, a'r risgiau cysylltiedig.

[176] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[177] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[178] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025
[179] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 1 Ebrill 2025

Mae angen i Lywodraeth Cymru reoli'r risgiau hyn. Mae angen i'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethiant o'u cwmpas fod yn gadarn, ac wedi'u hysbysu'n drylwyr.

**188.** Mae ein gwaith craffu blaenorol wedi dangos bod buddsoddiad masnachol yn ansicr, a gall gymryd blynyddoedd lawer i wireddu'r manteision economaidd. Er nad ein rôl ni fu gwneud sylwadau ar rinweddau penderfyniadau Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn busnesau penodol, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae penderfyniadau i fuddsoddi yn cael eu gwneud, ac yna'n cael eu rheoli.

**189.** Yn achos TVRA, rydym yn pryderu ynghylch yr hyn sy'n digwydd nesaf o ran defnyddio'r ffatri a buddsoddiad ecwiti Llywodraeth Cymru. Mae’n destun pryder inni bod yr eiddo yn parhau i fod yn wag, ac nad yw'r buddsoddiad fel y mae ar hyn o bryd, yn cynhyrchu unrhyw incwm nac yn cynrychioli gwerth am arian. O'r adeg yr ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol atom yn gyntaf, ym mis Gorffennaf 2024, ynglŷn â chefnogaeth Llywodraeth Cymru i TVRA, i'r diweddariad diweddaraf a gawsom gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2025, ychydig iawn sydd wedi newid. Nodwn, hefyd, fod y gwaith adnewyddu ar y ffatri wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2023, a dyna pryd y gwnaed y penderfyniad i ddilyn opsiwn tenant amgen.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Pwyllgor hwn pan fydd unrhyw werthiant o'r cyfranddaliadau wedi'i gwblhau, gan gynnwys manylion lefel yr enillion, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniant prydlesu wrth i unrhyw denant gael ei ganfod. Gofynnwn i unrhyw ddiweddariadau gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r lefel ddisgwyliedig o incwm o unrhyw brydles wedi'i sicrhau.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **19 Chwefror 2025** | **Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol,** Llywodraeth Cymru<br>**Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu,** Llywodraeth Cymru<br>**Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid,** Llywodraeth Cymru<br>**Dominic Houlihan, Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd,** Llywodraeth Cymru |